



HM Prison &
Probation Service

Model Gweithredu Targed Drafft ar gyfer Dyfodol Gwasanaethau Prawf yng Nghymru a Lloegr

Y Rhaglen Diwygio
Gwasanaethau Prawf

Cynnwys

05 Diwygio gwasanaethau prawf – Crynodeb gweithredol

- 06 Diwygio gwasanaethau prawf – Crynodeb gweithredol
- 06 Y newidiadau allweddol yng Nghymru a Lloegr
- 06 (i) Un sefydliad yn Rheoli Dedfrydau
- 06 (ii) Deuddeg rhanbarth prawf newydd
- 07 (iii) Trawsnewid drwy Bartneriaethau: Gweithio â phartneriaid i ddarparu gwasanaethau adsefydlu effeithiol ac arloesol
- 08 (iv) Moderneiddio ein hystâd a'n technoleg i alluogi diwygio
- 08 (v) Galluogi pobl i wneud eu gorau: Cydnabyddiaeth broffesiynol i staff prawf


09 Pennod 1: Cyflwyniad

- 10 Cyflwyniad
- 10 1. Y ddogfen: cwmpas ac iaith
- 10 1.2. Cwmpas
- 10 1.1. Iaith
- 11 2. Yr achos dros newid a chyd-destun ehangach
- 12 2.1. Rhaglenni diwygio eraill
- 12 2.2. Strategaeth Fusnes a Gweledigaeth HMPPS
- 14 Ffigur 1. Ein gweledigaeth a'n hamcanion
- 15 3. Ein 'cwsmeriaid allweddol': canlyniadau dymunol

16	Ffigur 2. 'Cwsmeriaid allweddol': canlyniadau dymunol
17	4. Cynllun Cyswllt Dioddefwyr
18	5. Cyflwr y dyfodol presennol ac a gynllunnir
20	6. Pontio a chatau nesaf
20	6.1. Cymru
20	6.2. Gwaith dylunio terfynol
21	Ffigur 3: Cerrig milltir lefel uchel ar gyfer symud i'r model unedig

22 Pennod 2: Model Gweithredu Targed Drafft

23	1. Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y bennod hon
24	2. Ymyriadau a Model Gweithredu Targed ar dudalen
25	Ffigur 4. Gwasanaethau sydd ar gael yn y system brawf a ble yn y system brawf y byddant yn cael eu darparu
25	Ffigur 5. Crynodeb o'r Model Gweithredu Targed
26	3. Darparu Rheoli Dedfrydau
26	3.1. Y rhanbarthau: cyfrifoldebau, atebolrwydd a chomisiynu
26	3.2. Strwythur rhanbarthol
26	Ffigur 6. Y 12 rhanbarth prawf yng Nghymru a Lloegr ar ôl 2022
28	4. Darpariaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
28	4.1. Rôl yr Ymarferwyr Prawf: asesu, amddiffyn a newid
29	4.2. Rôl Ymarferwyr Prawf mewn asesu ac amddiffyn y cyhoedd
29	4.3. Rôl Ymarferwyr Prawf i hybu newid
31	4.4. Cyngor i'r llysoedd a Rheoli Dedfrydau
34	5. Gweddnewid drwy bartneriaethau: arloesi a gweithio â phartneriaid i adsefydlu pobl
34	5.1. Rôl y darparwr yn narpariaeth ymyriadau
35	5.2. Contractio a darparu ymyriadau
35	5.3. Y Fframwaith Dynamig
38	Tabl 1. Y meysydd angen ar gyfer gwasanaethau adsefydlu a'r canlyniadau dymunol
39	5.4. Ailsefydlu o garchar i'r gymuned: y model newydd
42	5.5. Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf



47	6. Rhyngwynebau rhwng yr NPS a darparwyr
47	(i) Deall y galw i ganfod gofynion gwasanaeth
48	(ii) Mynediad at wasanaethau
48	(iii) Comisiynu a rheoli contract y gwasanaeth
50	Ffigur 7. Y tri maes allweddol i'w hadolygu a'u datblygu i alluogi modelau comisiynu i weithio
51	7. Galluogi pobl i wneud eu gorau: rheoli'r gweithlu a chydabyddiaeth broffesiynol
51	7.1. Pobl, trefniadau a rolau allweddol
51	8. Cydraddoldeb ac unigolion dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf: carfanau a nodweddion gwarchodedig
54	9. Moderneiddio ein technoleg a'n gwasanaethau digidol
56	Ffigur 8. Trosolwg o'r gwasanaethau digidol a lle yn y system brawf maent yn cael eu defnyddio
57	10. Moderneiddio ein hystâd
58	11. Fframwaith perfformiad

Rhestr o ddiagramau a thablau

14	Ffigur 1. Ein gweledigaeth a'n hamcanion
16	Ffigur 2. 'Cwsmeriaid allweddol': canlyniadau dymunol
21	Ffigur 3. Cerrig milltir lefel uchel ar gyfer symud i'r model unedig
25	Ffigur 4. Y gwasanaethau sydd ar gael a lle yn y system brawf y byddant yn cael eu darparu
25	Ffigur 5. Crynodeb o'r model gweithredu targed
26	Ffigur 6. Y 12 rhanbarth prawf yng Nghymru a Lloegr ar ôl 2022
40	Tabl 1. Y meysydd angen ar gyfer gwasanaethau adsefydlu a'r canlyniadau dymunol
50	Ffigur 7. Y tri maes allweddol i'w hadolygu a'u datblygu i alluogi modelau comisiynu i weithio
56	Ffigur 8. Trosolwg o'r gwasanaethau digidol a lle yn y system prawf maent yn cael eu defnyddio



Diwygio gwasanaethau prawf

Crynodeb gweithredol



Diwygio gwasanaethau prawf – Crynodeb gweithredol

Mae gwasanaethau prawf yn ganolog i gynlluniau'r Llywodraeth i gryfhau'r system cyfiawnder troseddol i ennyn hyder bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu a bod dioddefwyr troseddu a'r cyhoedd ehangach yn cael eu hamddiffyn yn effeithiol.

I ategu system cyfiawnder troseddol gadarnach, rydym yn cyflwyno model tymor hir cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau prawf sy'n amddiffyn y

cyhoedd, sy'n cynnig opsiynau gweladwy a chredadwy i ddedfrydwyr, sy'n delio'n effeithiol ag unigolion sydd wedi troseddu'n fynych ac sy'n cynnig y cymorth adsefydlu cywir i roi sylw i ymddygiad troseddol. Bydd hyn yn cyfrannu at weledigaeth strategol Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi i amddiffyn y cyhoedd a helpu pobl sy'n byw bywydau positif ac sy'n parchu'r gyfraith.

Y newidiadau allweddol yng Nghymru a Lloegr

(i) Un sefydliad yn Rheoli Dedfrydau

Rydym yn symud at fodel unedig sy'n dod â chyfrifoldeb dros reoli pob unigolyn sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) drwy integreiddio'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRC) a Rheoli Dedfrydau NPS.

Bydd hyn yn ein helpu i drawsnewid **drwy bartneriaethau gan roi eglurder i sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â gwasanaethau prawf yn ogystal â symleiddio trefniadau ar gyfer darparu cyngor i lysoedd ac ailsefydlu ar ôl rhyddhau o garchar. Yn bwysig iawn, o gofio'r angen i ymateb i newidiadau i'r system cyfiawnder troseddol ehangach, mae hefyd yn cynnig mwy o hyblygrwydd i ailgyfeirio staff ar draws swyddogaethau a meithrin galluedd i ymateb i'r newid yn y galw am wasanaethau prawf.**

(ii) Deuddeg rhanbarth prawf newydd

Rydym yn symud at fodel lle mae gwasanaethau prawf yn cael eu trefnu ar ffurf 12 Rhanbarth sy'n cael eu goruchwyllo gan Gyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol gydag atebolrwydd clir rhwng darparu Rheoli Dedfrydau ac ymyriadau a fydd yn cael eu prynu


Bydd hyn yn helpu i ymateb i alwadau ar lefel fwy lleol ac i wella ein gallu i gyflawni ein rhwymedigaethau gweithio mewn partneriaethau anstatudol. Bydd hefyd yn hybu **diwylliant dysgu agored** drwy ein galluogi i ganfod a chytuno ar flaenoriaethau cyffredin yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael ac i weithio â phartneriaid i helpu unigolion, lleihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd. reduce reoffending and protect the public.

**(iii) Trawsnewid
drwy
Bartneriaethau:
Gweithio â
phartneriaid
i ddarparu
gwasanaethau
adsefydlu
effeithiol ac
arloesol**

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau y bydd ein model i'r dyfodol yn caniatáu i bawb a allai fod yn darparu gwasanaethau prawf, o unrhyw sector, chwarae eu rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf. Drwy'r Partner Darparu Gwasanaethau Prawf a chystadlaethau Fframwaith Dynamig byddwn yn profi syniadau o'r farchnad i ddarparu gwasanaethau'n well. Byddwn yn defnyddio'r broses hon i benderfynu ar ffurf ein sylfaen o ddarparwyr yn y dyfodol. Ein blaenoriaeth sylfaenol yw sicrhau ein bod yn sicrhau'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd a wasanaethwn.

Byddwn yn disgwyl i ddarpar Bartneriaid Darparu Gwasanaethau Prawf ddarparu ymyriadau wedi'u diffinio a fydd yn cael eu cyflenwi ar raddfa, gyda'r Fframwaith Dynamig yn darparu gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu a fydd wedi'u teilwra'n well y bydd modd eu defnyddio yn ôl y gofyn ar lefel ranbarthol a lleol er mwyn ymateb i'r angen. Bydd hyn yn ein galluogi i fanteisio ar brofiad, arloesi a sgiliau yn y sectorau preifat, gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol i ddarparu gwasanaethau adsefydlu effeithiol a fydd yn rhoi sylw i anghenion criminogenig gan gynnwys ieuchyd meddwl a chaethiwed. Rydym wedi dylunio'r prosesau cystadlu a chomisiynu i greu mwy o allu i gyd-gomisiynu gwasanaethau, ac i roi cyfleoedd mwy uniongyrchol i sefydliadau gwirfoddol, cymunedol a menter gymdeithasol cenedlaethol a lleol ddarparu gwasanaethau.

Bydd gan Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol rôl holl bwysig mewn comisiynu ymatebol a darparu gwasanaethau prawf yn lleol i **weddnewid drwy bartneriaethau**. Drwy sicrhau eglurder o ran atebolrwydd ar gyfer darparu a'r prosesau a'r dulliau gweithredu angenrheidiol i helpu i gyflawni hyn, bydd modd cydweithio ar lefel ranbarthol rhwng yr NPS, darparwyr gwasanaeth a'r system cyfiawnder troseddol ehangach gan gynnwys llysoedd lleol, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu a chomisiynwyr eraill. Bydd hyn yn ein galluogi ni i roi sylw i faterion cymdeithasol trawsbynciol sy'n allweddol i fynd i'r afael ag aildroseddu ac atal rhagor o bobl rhag bod yn ddioddefwyr troseddu. Drwy sefydlu arweinyddiaeth prawf fwy strategol ym mhob rhanbarth, bydd hefyd yn ein galluogi i addasu sut yr ydym yn gweithio â phartneriaid yn y dyfodol ar sail yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol.



Byddwn yn ad-drefnu ac yn moderneiddio ein hystâd ddibreswyl i helpu i ddarparu'r gwasanaeth. Byddwn yn buddsoddi i uwchraddio'r dechnoleg a fydd yn golygu y bydd modd cofnodi, rhannu a defnyddio data'n well i helpu wrth wneud penderfyniadau ac yn hwyluso dulliau gwell o weithio.

Bydd hyn yn sicrhau bod gan staff **ystâd fodern** ac y bydd hynny'n arwain at amgylcheddau a threfniadau rhannu gwybodaeth gwell i **hybu gweithio mewn partneriaeth** a sicrhau gwerth am arian drwy ffyrdd mwy effeithiol o weithio.

Bydd hefyd yn galluogi **diwylliant dysgu agored** drwy roi'r gallu i ni i olrhain a hwyluso taith unigolyn drwy'r system brawf gan gynnwys unrhyw ymyriadau a geir, a fydd yn helpu i lywio gwelliannau i'r system yn y dyfodol.

**(v) Galluogi
pobl i wneud
eu gorau:
Cydnabyddiaeth
broffesiynol i
staff prawf**

Mae ein holl staff sy'n gweithio yn y sector prawf yn chwarae rhan bwysig i newid a rhoi sylw i ymddygiad troseddol. I alluogi ein gweithwyr prawf proffesiynol i fod yn hyderus wrth gynghori dedfrydwyr ac i oruchwylio unigolion yn y gymuned mor effeithiol â phosibl rhaid inni fod yn eglur ynglŷn â'r safonau proffesiynol a'r disgwyliadau yr ydym yn disgwyl ganddynt, a'u helpu i ddatblygu'r dulliau gweithredu, y sgiliau a'r galluoedd i gyrraedd y safonau hyn.

Elfen allweddol o hyn yw **moderneiddio ein technoleg**, systemau cofnodi a monitro sy'n lleihau dyblygu, sy'n symleiddio tasgau a galluogi Ymarferwyr Prawf i dreulio mwy o amser yn gweithio ag unigolyn i'w helpu i adsefydlu.

Er mwy gwireddu ein huchelgais i'r gwasanaeth prawf gael ei gydnabod fel proffesiwn sy'n darparu gwasanaeth o safon uchel, rydym wedi sefydlu Rhaglen Gweithlu Prawf. Bydd hon yn rhoi pwyslais o'r newydd ar ein gweithlu gwerthfawr ac yn sicrhau bod gennym y bobl gywir, gyda'r sgiliau cywir yn y rolau cywir. Bydd yn ennyn mwy o berchnogaeth dros ddatblygiad proffesiynol drwy roi mynediad at gyfres o gyfleoedd dysgu a datblygu o safon ryngwladol sy'n seiliedig ar ymarfer proffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd y rhaglen yn **galluogi pobl i fod ar eu gorau** drwy adolygu ac ehangu'r llwybrau mynediad presennol i yrfaoedd mewn prawf, a thrwy ddatblygu cyfres.



Penetration Testing



Cyflwyniad

Mae'r bennod hon yn cyflwyno diben y ddogfen hon, gan ddisgrifio'r cyd-destun sy'n sail i'r system brawf newydd sy'n cael ei datblygu, amlinellu'r weledigaeth ar gyfer y Rhaglen Diwygio Prawf o fewn cyd-destun strategol ehangach HMPPS, a hefyd rhoi trosolwg o'r system ar gyfer y dyfodol a'r hyn sy'n newid.

1. Y ddogfen: cwmpas ac iaith

1.2. Cwmpas

Mae'r ddogfen yn disodli'r 'Draft Operating Model Blueprint' ar gyfer gwasanaethau prawf a gyhoeddwyd ym Mehefin 2019, gan gynnwys rhagor o wybodaeth am ein bwriadau a sut yr ydym yn rhagweld y bydd model y dyfodol yn gweithio. Rydym yn disgwyl y bydd y model a ddisgrifir yn gwbl weithredol o Fehefin 2022 ymlaen, yn dilyn integreiddio Rheoli Dedfrydau i'r NPS yng Nghymru ar ddiwedd 2019 a threfniadau newydd ar gyfer prawf a ddaw i rym yn haf 2021 pan ddisgwylir y bydd y contractau CAC presennol yn cael eu terfynu.

Mae cynnwys y ddogfen hon a datblygiad ein syniadau yn seiliedig ar ymgysylltu â'r farchnad a rhanddeiliaid yn dilyn cyhoeddi, ym Mai, yr ymateb i'r ymgynghoriad 'Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder'¹. Ers yr ymateb i'r ymgynghoriad, rydym wedi cynnal dros 20 o ddigwyddiadau ac wedi cwrdd â dros 530 o rhanddeiliaid sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaethau prawf. Rydym wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu â'r farchnad, ochr yn ochr â gweithdai ar gyfer ymarferwyr ac unigolion sy'n gysylltiedig â gwasanaethau prawf. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r Greater Manchester Combined Authority, y Mayor's Office for Policing and Crime (Llundain),

ac â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau wrth inni lunio cyfres o ddyluniadau. Rydym wedi parhau i ymgysylltu ag undebau llafur ac rydym wedi cynnal nifer o weithdai ymgysylltu â staff. Rydym hefyd wedi cwrdd ac wedi siarad â dros 200 o aelodau staff prawf o NPS a CACau.

Mae Pennod 2: 'Model Gweithredu Targed Drafft' y ddogfen yn rhoi trosolwg o'r Model Gweithredu Targed drafft ar gyfer dyfodol gwasanaethau prawf sy'n cynnwys disgrifiad o strwythurau a chyfrifoldebau o fewn y system newydd, sut y byddwn yn cydweithio o fewn HMPPS ac yn gweithio a phartneriaid i adsefydlu pobl, cydnabyddiaeth broffesiynol i Ymarferwyr Prawf, a thechnoleg a data.

1.1. Iaith

Rydym yn defnyddio'r ddogfen hon fel cyfle i ailosod peth o'r iaith yn y system brawf fel y gallwn adeiladu diwylliant cynhwysol y gall staff o CACau a'r NPS uniaethu â hi; defnyddio terminoleg sy'n ddealladwy i rhanddeiliaid, ac sy'n adlewyrchu orau'r bwriadau sydd wrth wraidd y model newydd a'r buddiannau am eu cyflawni.

Wrth ddisgrifio'r System Brawf newydd, bydd y ddogfen hon, i'r graddau posibl, yn defnyddio **unigolyn/unigolyn dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf/ person, Ymarferydd Prawf a Rheoli Dedfrydau** i ddynodi'r termau Troseddwr, Rheolwr Troseddwr/ Swyddog Cyfrifol a Rheoli Troseddwr a ddefnyddid yn flaenorol. Eithriadau fydd naill ai dynodi cyd-destun Cyfiawnder troseddol penodol (fel Swyddog Cyfrifol wrth gyfeirio at ofynion deddfwriaeth allweddol) neu wrth gyfeirio at nodweddion rhaglen gyfochrog, fel Rheoli Troseddwr mewn Caethiwed.

¹https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/802175/strengthening-probation-consultation-response.pdf

2. Yr achos dros newid a chyd-destun ehangach


Bu cryn graffu allanol ar y system bresennol gan gynnwys adroddiad y Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar y diwygiadau Gweddnewid Adsefydlu a gyhoeddwyd ym Mehefin 2018, adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Gwladol yn Chwefror 2019 ac Adroddiad Blynnyddol 2018/19 Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi. Roedd pob un yn cydnabod yr heriau yn y system bresennol ac yn galw am ddiwygio.

Mae gwasanaethau prawf yn ganolog i sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu. Boed unigolyn yn cael ei ddedfrydu i ddedfryd dan glo neu yn y gymuned, mae gwasanaethau prawf yn allweddol i sicrhau bod gorchmynion yn llys yn cael eu cyflawni a'u gorfodi, bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn a bod unigolion yn cael eu hadsefydlu yn ogystal â'u cosbi. Mae'r system brawf yn goruchwyllo dros 250,000 o unigolion ar unrhyw adeg. Mae hynny'n golygu eu hasesu, eu hamddiffyn hwy a'r cyhoedd, a newid ymddygiad drwy drefnu ymyriadau perthnasol i'r rhai ar ddedfrydau cymunedol, dedfrydau byr dan glo a rhai sy'n barod i'w rhyddhau o garchar.

Cyn dedfrydu, mae Ymarferwyr Prawf yn cynghori llysoedd fel y gall dedfrydau adlewyrchu'r ffactorau cymhleth yn aml sydd ar waith mewn amgylchiadau unigolion. Yn ddibynnol a yw dedfryd o gaethiwed neu gymunedol wedi'i rhoi, mae gan wasanaethau prawf rôl drwy gydol y ddedfryd. Mae Ymarferwyr Prawf yn rheoli anghenion a phroffil risg yr unigolion o dan ein goruchwyliaeth sy'n newid yn barhaus, gan weithio i sicrhau eu bod yn cyflawni amodau eu dedfryd a bod camau'n cael eu cymryd ar fyrder os nad ydynt.

Rhaid i weithrediadau'r gwasanaethau prawf gael eu gweld hefyd yng nghyd-destun y ddarpariaeth ehangach. Mae'r NPS yn un o dair cangen weithredol HMPPS, sy'n asiantaeth weithredol o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn ychwanegol at wasanaethau prawf, mae HMPPS yn gyfrifol am garchardai (cyhoeddus a phreifat), caethiwo ieuencid ac ystod o wasanaethau eraill gan gynnwys goruchwyllo darpariaeth contract ar gyfer monitro electronig a gwasanaethau hebrwng carcharorion ac mae felly'n rhan anhepgor o'r System Cyfiawnder Troseddol. Drwy fframwaith Strategaeth Fusnes HMPPS, mae gennym ymrwymiad cryf i weithio â'n gilydd fel un HMPPS, i wireddu'r canlyniadau gorau i unigolion dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf, ac i'r cyhoedd.

Mae cydweithio mewnol rhwng ein canghennau gweithredol yn rhan bwysig o ddarparu gwasanaeth prawf mwy cydlynus. Yn ogystal â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ehangach, gan gynnwys y system Llysoedd, mae partneriaethau'n ymestyn i adrannau eraill o'r Llywodraeth, Llywodraeth Cymru, Comisiynwyr Heddlu a Throseddau a'r Heddlu, a gwasanaethau cyhoeddus mwy cyffredinol fel awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol. Bydd ein darparwyr dan gontract hefyd yn rhan anhepgor o'n sefydliad ac yn hanfodol i'n heffeithiolrwydd.



I fod yn effeithiol, rhaid i wasanaethau prawf fod yn rhan o ddarpariaeth gwasanaeth ehangach, lleol, cyhoeddus i sicrhau ei fod yn ymateb i flaenoriaethau ac anghenion lleol ac yn gallu dylanwadu a ffurfio darpariaeth y gwasanaethau ehangach y mae gan unigolyn hawl iddynt fel aelod o'r gymuned. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau fel llety ac iechyd sy'n allweddol i helpu unigolion i adsefydlu.

Mae'r system newydd yn ymdrech i ategu'r protocol y cytunwyd arno â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England a Public Health England i hybu defnydd o ofynion Triniaeth Iechyd Meddwl, Triniaeth Alcohol ac Adsefydlu Cyffuriau. Mae'r Fframwaith Dynamig yn ymdrechu i sicrhau bod ymyriadau ar gael i ddiwallu anghenion y llwyth achosion Prawf sy'n digwydd yn aml. Mae'r rhain yn cynnwys llesiant emosiynol cyffredinol, y gallu i reoli hwyliau a chydnerthedd a hyder, y gallu i ymgysylltu gyda a defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a/neu gydymffurfio â meddyginiaethau/triniaeth a'r gallu i adeiladu a chynnal rhyngweithio cymdeithasol priodol.

2.1. Rhaglenni diwygio eraill

Mae'r newidiadau i'r gwasanaeth prawf yn digwydd ar y cyd â rhaglenni diwygio a darparu pwysig eraill ar draws HMPPS a'i ddarparwyr dan gontract. Fel yn achos y diwygiadau i'r Gwasanaeth Prawf, mae'r rhaglenni a'r newidiadau hynny i'r ddarpariaeth yn esblygu gyda strategaeth fusnes HMPPS. Rydym am weld ein model gweithredu prawf ar gyfer y dyfodol yn alinio â'r newidiadau ehangach hyn fel y gallwn wireddu'r potensial i wella canlyniadau i'r eithaf, yn gydnaws â'r strategaeth a gweledigaeth HMPPS i

'work together to protect the public and help people lead law abiding and positive lives'. Wrth ddatblygu'r model newydd, rydym wedi a byddwn yn parhau i ystyried pwyntiau cysylltiedig rhaglenni darparu a datblygiadau allweddol o fewn HMPPS, er enghraifft, Rheoli Troseddwyr Dan Glo yn ogystal â newidiadau ehangach fel diwygio llysoedd.

Bydd gwybodaeth fanwl yn ymwneud â newidiadau cyfochrog HMPPS sy'n gydnaws â fframwaith strategaeth fusnes HMPPS yn dilyn yn y cam nesaf o'r Model Gweithredu Targed yn ddiweddarach yn 2020.

2.2. Strategaeth Fusnes a Gweledigaeth HMPPS

Mae'r model prawf newydd wedi'i lywio gan strategaeth fusnes gyffredinol HMPPS a'n gweledigaeth i weithio â'n gilydd i amddiffyn y cyhoedd ac i helpu pobl i fyw bywydau positif ac o fewn y gyfraith.

“ Mae'r model prawf newydd wedi'i lywio gan strategaeth fusnes gyffredinol HMPPS a'n gweledigaeth i weithio â'n gilydd i amddiffyn y cyhoedd ac i helpu pobl i fyw bywydau positif ac o fewn y gyfraith.

Elfen ganolog o wasanaeth prawf cryf yw **'Asesu, Amddiffyn, Newid'**. Rôl yr NPS yw asesu'r risgiau a'r anghenion sy'n cael eu harddangos gan unigolion yn y system brawf, amddiffyn y cyhoedd drwy ganfod a goruchwyllo gweithredu effeithiol i roi sylw i'r rhain a rhoi'r cymhellon cywir ar waith i alluogi unigolion i newid eu hymddygiad. Yn Ffigur 1 gwelir ein gweledigaeth ar gyfer diwygio'r gwasanaeth prawf.


Wrth gyflawni'r rôl hon, byddwn yn rhoi pwyslais ar y pedair egwyddor a nodir yn strategaeth fusnes HMPPS:

- ▲ Galluogi ein pobl i wneud eu gorau.
- ▲ Diwylliant dysgu agored.
- ▲ Gweddnewid drwy bartneriaethau.
- ▲ Moderneiddio ein hystadau a'n technoleg.


Mae'r egwyddorion uchod yn amlwg yn nyluniad y system newydd gan gynnwys ein pwyslais ar ddeall ymarfer effeithiol, ystyried sut y gallwn ddefnyddio offer digidol i gofnodi data i'n helpu i lywio penderfyniadau yn y dyfodol a chydabod yr angen am strategaeth ystadau i helpu newidiadau. Maent yn amlwg hefyd ymhlith rhai o fuddiannau arfaethedig y model prawf newydd a fydd yn cyfrannu at adeiladu gwasanaeth prawf cryf fel rhan o weledigaeth gyffredinol HMPPS drwy:

- ▲ Defnydd gwell o ddefnyddau cymunedol yn lle caethiwed.
- ▲ Cynnydd mewn hyder barnwrol a dylanwad mewn llysoedd.
- ▲ Gwasanaeth o ansawdd uwch.
- ▲ Mwy o gydweithio o fewn ein sefydliad a chryfhau ein gwaith â phartneriaid.
- ▲ Datblygu ein gweithlu.

- ▲ Mwy o hyblygrwydd i'n galluogi i annog newid ar draws y system ac ateb newidiadau yn y galw pan fydd angen.



Ffigwr 1 Ein gweledigaeth a'n hamcanion



3. Ein 'cwsmeriaid allweddol': canlyniadau dymunol

Rydym yn sylweddoli bod angen i system brawf y dyfodol ymateb i ofynion y sawl sy'n cael eu gwasanaethu ganddo. Mae ein hathroniaeth wrth ddylunio Model Gweithredu Targed y dyfodol felly wedi'i llywio gan ymgysylltiad â'r farchnad a rhanddeiliaid yn dilyn cyhoeddi ymateb i'r ymgynghoriad '*Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf, Meithrin Hyder*' ym mis Mai 2019 gyda phwyslais ar adborth gan ein cwsmeriaid allweddol ar eu canlyniadau dymunol o'r system newydd. Ceir y manylion yn Ffigur 2 (drosodd) ond, i grynhoi:

Mae ar **ddedfrydwyr** angen **dedfrydau cymunedol credadwy** (sy'n ennyn hyder y llysoedd a'r cyhoedd, ac sy'n helpu unigolion ar eu llwybr yn ôl i gymdeithas ac sy'n ysgafnhau'r pwysau ar y system garchardai).


Bydd **unigolion sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf** am weld **cynnydd yng ngallu'r system brawf** (gan alluogi unigolion i gael eu helpu'n ôl i'r gymuned yn ddiogel, gan roi iddynt y gallu i fanteisio ar gyflogaeth a gwasanaethau lles eraill, a delio â'r problemau sydd wedi achosi iddynt i droseddu), a **sicrhau mynediad** (at ystod o wasanaethau statudol a darpariaeth trydydd sector y tu allan i'r system prawf, gan eu helpu i adsefydlu).

Bydd **Ymarferwyr Prawf** am brofi **amgylchedd sy'n eu symbylu** (gyda'r sgiliau i ddarparu gwasanaethau prawf effeithiol), **lleihau faint o amser mae staff rheng flaen yn ei dreulio'n cyflawni tasgau gweinyddol** (drwy fuddsoddi mewn prosesau busnes symlwch a thechnolegau galluogi), a **chyflymu cydnabyddiaeth broffesiynol y gweithlu**.


Bydd **Partneriaid ac Awdurdodau** am weld **ymgysylltu a chydweithio cryfach** (i ddylunio, darparu a goruchwyllo gwasanaethau prawf yn lleol), a **mwyr o alinio a chydweithio** (i greu amgylchiadau darparu mwy effeithiol).

Bydd y **Cyhoedd** am weld **gwelliant yn niogelwch y cyhoedd, a llai o aildroseddu** (gan sicrhau bod unigolion yn cael cymorth priodol i ailsefydlu yn y gymuned) a **mwyr o werth am arian** (drwy gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd mewn modd mwy effeithlon ac effeithiol).

Bydd **Dioddefwyr** am fod yn **hyderus bod y ddedfryd yn amddiffyn y cyhoedd ac yn lleihau troseddu** drwy fynd i'r afael ag ymddygiad troseddol sylfaenol pobl.



Ffigwr 2: 'Cwsmeriaid allweddol': Canlyniadau Dymunol 2022



4. Cynllun Cyswllt Dioddefwyr


Mae bod yn ddioddefwr trosedd fod yn gallu bod yn brofiad dirdynol sy'n gadael creithiau corfforol neu drawma emosiynol a all bara am flynyddoedd lawer ar ôl y digwyddiad. Mae'n hanfodol bod gan ddioddefwyr fynediad at gymorth o safon uchel, sy'n amserol ac yn effeithiol i'w helpu i ymdopi ac, i'r graddau posibl, i wella o effeithiau'r drosedd ac ailadeiladu eu bywydau.

“ Mae'n hanfodol bod gan ddioddefwyr fynediad at gymorth o safon uchel, sy'n amserol ac yn effeithiol i'w helpu i ymdopi ac, i'r graddau posibl, i wella o effeithiau'r drosedd ac ailadeiladu eu bywydau.

Mae Strategaeth Dioddefwyr y Llywodraeth, a gyhoeddwyd ym Medi 2018, yn ymrwymo i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt drwy gydol eu profiad o'r system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys yr angen i ddioddefwyr gael gwybodaeth eglur, gywir ac amserol i'w helpu drwy'r system cyfiawnder troseddol. Roedd y Strategaeth yn cydnabod nad yw dioddefwyr bob amser yn cael gwybodaeth eglur a chywir sy'n un o ofynion y Cod Dioddefwyr, gan gynnwys sut mae ymuno â'r Cynllun Cyswllt Dioddefwyr, ac ymrwymiad i wella gwybodaeth am y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr a gwneud y broses atgyfeirio yn un symlach.

Bydd gwella gallu Swyddogion Cyswllt Dioddefwyr y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn ganolog i ddarparu gwasanaeth gwybodaeth o safon uchel i ddioddefwyr yn y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr. Er bod llawer wedi'i wneud eisoes i ddarparu hyfforddiant a chanllawiau wedi'u diweddarau i swyddogion, mae rhagor i'w wneud eto. Roedd dogfen Rhaglen Diwygio Prawf, The Proposed Future Model for Probation: A Draft Operating Blueprint, a gyhoeddwyd fis Mehefin 2019, yn pwysleisio'r angen am eglurder ynghylch y safonau proffesiynol a'r disgwyliadau y disgwylir i staff eu cyrraedd, ac mae'n cydnabod bod yn rhaid iddynt gael y dulliau gweithredu a'r dechnoleg gywir i'w galluogi i gyrraedd disgwyliadau dioddefwyr.

Byddwn yn darparu gwybodaeth well i ddioddefwyr am y cynllun. Yn benodol, byddwn yn disgrifio mewn ffordd eglur a syml beth yw buddiannau'r cynllun gan gynnwys manylion proses optio i mewn ddiwygiedig sy'n fwy eglur. Byddwn yn ystyried cyflwyno mesurau i ailgynnig gwasanaethau'n ddiweddarach yn nedfryd unigolyn i'r dioddefwyr hynny sydd wedi optio allan o'r cynllun ar ôl y cyswllt cyntaf. Byddwn yn gwella ein cysylltiad â dioddefwyr. Byddwn yn cynnig mwy o ddewis i ddioddefwyr o ran dull ac amllder ein cysylltiad â hwy. Pan yn briodol byddwn yn defnyddio dulliau cyfathrebu digidol mwy effeithlon (e-bost, negeseuon testun), gan symud i ffwrdd oddi wrth gyfathrebu drwy'r post pan fydd hynny'n bosibl.



5. Cyflwr y dyfodol presennol ac a gynllunnir

Ceir disgrifiad isod o'r prif newidiadau sy'n cael eu cynllunio o dan y model newydd, ac yr ydym yn eu rhagweld a fydd wedi'u hymgorffori o 2022 ymlaen. Mae'r rhain yn cynnwys diweddariadau yn ein cynllunio ers y Glasbrint Gweithredu Drafft, yn fwyaf nodedig i nifer y rhanbarthau prawf, rhannu'r gwaith rhwng Partneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf (Partneriaid Arloesi gynt) a darparwyr y Fframwaith Dynamig, a sefydlu rhaglen ar wahân i fwrw ymlaen i gyflawni cynigion cydnabyddiaeth broffesiynol.

- ▲ Byddwn yn symud oddi wrth gyfrifoldeb am Reoli Dedfrydau a fydd yn cael ei rannu rhwng yr NPS a CACau (yn seiliedig ar asesiadau risg unigolion) i'r holl Reoli Dedfrydau'n cael ei integreiddio i'r NPS. Bydd yr NPS yn hybu gwelliannau yn y cyngor a roddir mewn llysoedd (gan gynnwys adroddiadau cyn-dedfrydu ac achosion gorfodi ar gyfer unigolion). Bydd hyn yn ein rhoi mewn sefyllfa well i wella ansawdd ac i fuddsoddi yn ein gweithlu yn ogystal â sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i warchod y cyhoedd ac ymateb i newid (bod hynny'n newidiadau polisi ehangach neu newidiadau yn y galw). Bydd yn ein helpu i gyflawni canlyniad strategol HMPPS, 'Rheoli Dedfrydau o ansawdd uchel.'
- ▲ Byddwn yn newid sut yr ydym yn trefnu gwasanaethau prawf o saith adran NPS ledled Cymru a Lloegr a 21 ardaloedd pecyn contract CAC i 12 rhanbarth newydd yn Lloegr a'r trefniant presennol yng Nghymru). Bydd hyn yn cael ei ategu gan strwythur rheoli newydd lle bydd pob rhanbarth yn cael ei goruchwylio gan Gyfarwyddwr Prawf


Rhanbarthol pwrpasol (Cyfarwyddwr NPS yng Nghymru). Byddant yn rhoi arweinyddiaeth strategol, gyda chyfeiriad at strategaeth fusnes gyffredinol HMPPS, a byddant yn gyfrifol am ddarparu a chomisiynu gwasanaethau prawf ym mhob rhanbarth. Bydd hyn yn helpu i ymateb i'r galw ar lefel fwy lleol ac yn gwella ein gallu i gyflawni ein rhwymedigaethau partneriaeth statudol ac anstatudol, gan ganfod blaenoriaethau a rennir a rhoi ystyriaeth i gyd-gomisiynu gwasanaethau sy'n helpu unigolion, yn lleihau aildroseddu ac yn amddiffyn y cyhoedd.

- ▲ Byddwn yn symud oddi wrth drefnu amrywiaeth o wasanaethau drwy gontract allanol gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol i sefydlu rôl sylweddol ac wedi'i ddiffinio'n glir i'r sectorau preifat a gwirfoddol, cymunedol a menter gymdeithasol er mwyn darparu Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig. Byddwn yn defnyddio'r gystadleuaeth Partner Darparu Gwasanaethau Prawf i brofi syniadau o'r farchnad ar gyfer sut gall y sectorau preifat, gwirfoddol, cymunedol a menter gymdeithasol ddarparu Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig ac Ymyriadau Strwythuredig. Byddwn hefyd yn sefydlu Fframwaith Dynamig fel cyfrwng i sicrhau gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu mwy personol ac i annog cyflenwyr llai i gyfranogi. Bydd trefniadau contractio symlach yn ein galluogi i fanteisio ar gryfderau marchnad gymysg a welwyd mewn enghreifftiau Gweddnewid Adsefydlu o Waith Di-dâl a Rhaglenni Achrededig yn cael eu darparu'n dda gan ddarparwyr dan gontract. Bydd hyn yn helpu i wella'r gwasanaeth adsefydlu sydd ar gael i unigolion. Rydym yn ymwybodol

o bwysigrwydd pennu disgwyliadau sylfaenol ar gyfer safonau darparu yn ogystal ag ymrwymiad parhaus i gynyddu arloesi yn y ddarpariaeth. Bydd yr NPS yn parhau i ddarparu rhai Rhaglenni Achrededig, gan gynnwys rhai sy'n rhoi sylw i droseddu rhywiol.

- ▲ Rydym yn y broses o symud o systemau gwybodaeth-technoleg cymhleth (sydd â chysylltedd data cyfyngedig ac nad ydynt yn gwneud y defnydd gorau o ddatrysiadau digidol) a buddsoddi mewn technoleg newydd a fydd yn galluogi cofnodi, rhannu a defnydd gwell o ddata. Bydd hyn yn cryfhau cydweithredu rhwng yr NPS a darparwyr gwasanaethau sy'n cael eu prynu ac yn rhoi sail dystiolaeth well i helpu i wella'r ddarpariaeth.
- ▲ Mae'r newidiadau i'r system brawf yn golygu symleiddio a moderneiddio ein hystâd prawf ddibreswyl i wella'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn golygu amgylchedd gweithio modern i staff ac unigolion sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf, sicrhau gwell adeiladau ac amgylchedd i hybu gweithio mewn partneriaeth a sicrhau gwerth am arian.
- ▲ Mae'r Rhaglen Gweithlu Prawf wedi'i chreu i fwrw ymlaen â gwaith i wneud yn siŵr bod recriwtio'n amrywiol a chynhwysol, bod lefelau staffio'n cael eu cyrraedd, bod gan staff y dysgu, y datblygiad a'r cymwysterau a'r cyfleoedd cywir ar gyfer datblygiad gyrfaol parhaus, ac i wneud yn siŵr bod ein polisiau Adnoddau Dynol yn ateb y galw. Mae manylion lefel uchel wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon gyda rhagor o fanylion i'w cynnwys mewn cyhoeddiadau eraill. Ein nod yw gwella ein cyfleoedd dysgu a datblygu i staff

drwy gyflwyno'r trefniadau sydd eu hangen i hybu datblygiad proffesiynol parhaus ac i ddatblygu rhaglen ddysgu effeithiol i ddiwallu anghenion ein gweithlu wrth iddynt newid. Byddwn hefyd yn ymdrechu i gael cydnabyddiaeth well i'n Hymarferwyr ar Brawf, a byddwn yn cyflwyno cofrestr a gaiff ei gweinyddu'n fewnol ar gyfer gweithwyr prawf proffesiynol sy'n defnyddio pwerau presennol, cyn ymgorffori'r swyddogaeth hon mewn deddfwriaeth sylfaenol. Bydd y Rhaglen Gweithlu yn cyfrannu at ganlyniad strategol, 'amrywiol, medrus sy'n cael ei werthfawrogi'.



6. Pontio a chamau nesaf

Rydym yn cydnabod bod symud i fodel newydd yn golygu newid arall, mawr i staff prawf o fewn yr NPS a CACau. I leddfu'r ansicrwydd ynglŷn â chyflogwyr y dyfodol a'r hyn mae'r newidiadau hyn yn ei olygu i unigolion, mae gan y rhaglen swyddogaeth rheoli newid bwrpasol. Bydd hyn yn sicrhau bod y pontio a'r broses symud yn cael eu rheoli'n dda, gydag ymgysylltu cyson ac ymgynghori ystyrlon ag undebau llafur a chyfathrebu â staff drwy gydol y broses.

Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith i ymestyn contractau CAC i sicrhau bod digon o amser i symud i'r system newydd. Rydym yn bwriadu terfynu contractau yn haf 2021 pan ddaw trefniadau newydd ar gyfer y gwasanaeth prawf i rym. Bydd hyn yn sicrhau pontio esmwyth, gyda phwyslais ar ddilyniant di-dor o ran amddiffyn y cyhoedd ac adsefydlu yn y gymuned. Rydym yn disgwyl y bydd y model wedi ymsefydlu'n llawn o Fehefin 2022. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd hyblygrwydd yn y system newydd i fireinio'r model ymhellach yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio'n ymarferol.


6.1. Cymru

Mae'r model newydd yn cydnabod cyfrifoldebau datganoledig a threfniadau partneriaeth presennol Llywodraeth Cymru ac mae'n ystyried blaenoriaethau ac agenda ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Yng Nghymru, rydym eisoes wedi dod â Rheoli Dedfrydau i'r NPS, sy'n golygu bod cyfleoedd i wneud gwelliannau cynnar i ansawdd a bydd gwersi a ddysgwyd yn bwydo i mewn i'r pontio ehangach. Bydd y CAC yn parhau i ddarparu'r holl wasanaethau dan gontract eraill tan ddiwedd y contract.

6.2. Gwaith dylunio terfynol

Mae dyluniad system y dyfodol yn broses iteraidd ac felly mae'r ddogfen hon yn waith sy'n parhau ac sy'n disgrifio'r datblygiadau hyd yma. Gall rhai elfennau felly gael eu newid yn dilyn datblygu a phrofi pellach o'r model wrth inni barhau i weithio ar y dyluniad a'r trefniadau pontio. Rydym yn bwriadu cyhoeddi fersiwn fwy manwl o fodel gweithredu'r gwasanaeth prawf ar gyfer y dyfodol yn ddiweddarach yn 2020. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau at Strengthening.probation@justice.gov.uk

Ffigur 3: Cerrig milltir lefel uchel ar gyfer pontio i'r model unedig






Pennod 2:

Model

Gweithredu


Targed Drafft



1. Yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y bennod hon

Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r Model Gweithredu Targed drafft ar gyfer y system brawf, ac y disgwylir y bydd yn weithredol o haf 2022 ymlaen (**ceir rhagor o fanylion ym Mhennod 3**) ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- ▲ Darparu Rheoli Dedfrydau: sy'n cynnwys strwythur busnes newydd HMPPS a threfniadau darparu NPS, gan gynnwys pob gweithgarwch Rheoli Dedfrydau.
- ▲ Gweddnewid drwy bartneriaethau: arloesi a gweithio â phartneriaid i adsefydlu pobl: gan gynnwys y Fframwaith Dynamig, Partneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf, Rhyngwynebau rhwng yr NPS a darparwyr; gwasanaethau Adsefydlu, ac ailsefydlu o garchar i'r gymuned.
- ▲ Galluogi pobl i wneud eu gorau: rheoli'r gweithlu a chydabyddiaeth broffesiynol: Pennu gofynion cymwysterau a safonau ymarfer ar gyfer gweithwyr prawf proffesiynol, atebolrwydd am a rheoli perfformiad, dysgu a datblygiad proffesiynol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, llwybrau mynediad i'r proffesiwn, a llwybrau gyrfa eglur a gwella cydnabyddiaeth broffesiynol i'n proffesiwn.
- ▲ Cydraddoldeb ac unigolion dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf: carfanau a nodweddion gwarchodedig: Y nodweddion gwarchodedig sy'n dod o fewn y Ddeddf Cydraddoldeb (2010) ac effaith system y dyfodol ar unigolion â'r nodweddion gwarchodedig hynny.
- ▲ Moderneiddio ein technoleg a'n gwasanaethau digidol: Y systemau cywir i gyflawni ac sy'n sail i gyflawni, mynediad at ddata i hybu dysgu parhaus, anghenion unigolion dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf a staff rheng flaen.
- ▲ Moderneiddio ein hystâd: Ein strategaeth ystadau a sut mae'n ategu platfform ystadau cynaliadwy a thymor hir ar gyfer gwasanaethau prawf.
- ▲ Fframwaith perfformiad: Mesurau ansawdd a sicrwydd newydd.



Ffigwr 4. Darparu ymyriadau yn y System Prawf

Gwasanaethau sydd ar gael i droseddwyr ac ym mha ran o system y gwasanaeth prawf y byddant yn cael eu darparu.

Cyflawni, NPS (HMPPS)

- Cyngor gan y llys,
 - Rheoli Achosion,
 - Gwasanaethau i ddioddefwyr,
 - Adeiladau cymeradwy
- +
- Rhaglenni i droseddwyr rhyw,
 - Ymyriadau ar gyfer Eithafiaeth,
 - Ymyriadau ar gyfer Troseddu Cyfundrefnol

Rhaglenni a Gwaith Di-dâl

- Rhaglenni Achrededig,
 - Gwaith di-dâl,
 - Ymyriadau strwythuredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael ag agweddau,
- Meddyliau ac ymddygiad,
 - Rheoli emosiynau, Cam-drin domestig

Gwasanaethau Adsefydlu ac Ailsefydlu (Fframwaith Deinamig)

- Llety
 - Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth
 - Cyllid, budd-daliadau a dyledion
 - Teulu ac unigolion arwyddocaol eraill
 - Ffordd o fyw a ffactorau cysylltiedig
- Dibyniaeth ar sylweddau a phethau eraill
 - Lles
 - Cynhwysiant cymdeithasol
 - Ymyriadau ar gyfer carfannau penodol, e.e. merched a phobl ifanc

Cronfa Ranbarthol Canlyniadau ac Arloesi

- Dod o hyd i wasanaethau i gefnogi canlyniadau gwell
 - Ymyriadau cynnar a dargyfeirio o'r System Gyfiawnder Troseddol
- Cefnogaeth ychwanegol i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth
 - Cefnogaeth yn yr hir dymor ar ôl i ddedfryd ddod i ben

Triniaethau, llwybrau a gwasanaethau cyffredinol


- Gofal sylfaenol
- Gwasanaethau iechyd meddwl
- Gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio
- Addysg
- Gwaith cymunedol a gwirfoddol
- Awdurdod Lleol

Gwasanaethau a ariennir gan eraill ond maent yn cael eu darparu (a'u gorfodi) ar y cyd gan NPS:

- Triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau (gofynion triniaeth alcohol/cyffuriau)
- Gofynion triniaeth iechyd meddwl
- Gwasanaeth Cymunedol ar gyfer Anhwylder Personoliaeth

Darparu'r System Prawf

Ffigwr 5. Crynodeb o'r Model Gweithredu Targed



3. Darparu Rheoli Dedfrydau

3.1. Y rhanbarthau: cyfrifoldebau, atebolrwydd a chomisiynu

Bydd rhanbarthau'n cynllunio ac yn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r gymuned gyda phwyslais ar ddefnyddio tystiolaeth i bennu blaenoriaethau ac yn y pen draw i wella gwasanaethau. Bydd hyn yn galluogi i wasanaethau rheng flaen gael eu darparu o fewn strategaeth ehangach HMPPS ac i fod yn gydnaws â rôl yr NPS i asesu risgiau, amddiffyn y cyhoedd a newid ymddygiad.

3.2. Strwythur rhanbarthol

Bydd strwythur presennol y 21 ardal pecyn contract a saith adran ddaearyddol yr NPS yn cael eu hailgyfansoddi i ffurfio 12 rhanbarth ledled Cymru a Lloegr (11 yn Lloegr ac un yng Nghymru) gyda'r NPS a'r ddarpariaeth contract yn alinio â hyn. Dangosir y 12 rhanbarth isod.

Ffigwr 6. Y 12 Rhanbarth Prawf yng Nghymru a Lloegr o 2022



Cod	Enw
A	Gogledd Ddwyrain Lloegr
B	Gogledd Orllewin Lloegr
C	Swydd Efrog a'r Humber
D	Cymru
E	Gorllewin Canolbarth Lloegr
F	Dwyrain Canolbarth Lloegr
G	De Orllewin Lloegr
H	Canol De Lloegr
I	Dwyrain Lloegr
J	Llundain
K	Caint, Surrey a Sussex
L	Manceinion Fwyaf

Cyfrifoldebau ac atebolrwydd

Bydd Cyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol newydd HMPPS yn goruchwyllo pob rhanbarth a byddant yn atebol am yr NPS a'r ddarpariaeth dan contract. Rydym yn creu strwythur sefydliadol rhanbarthol newydd o dan bob Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol i sicrhau bod gennym y galluoedd a'r swyddogaethau cywir i wneud yn siŵr eu bod yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth weithredol, NPS, comisiynu, rheoli contractau, perfformiad, ansawdd a gwasanaethau corfforaethol. Bydd y strwythur rhanbarthol yn cael ei ategu gan y galluoedd a'r swyddogaethau perthnasol o fewn HMPPS yn ganolog a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i annog effeithlonrwydd a chysondeb.

Bydd y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yn adrodd i strwythur ehangach HMPPS a bydd y Prif Swyddog Prawf yn gweithredu fel rheolwr llinell. Bydd arweinyddiaeth yng Nghymru a Lloegr yn cael eu dwyn ynghyd o dan Gyfarwyddwr Cyffredinol y Gwasanaeth Prawf.

Partneriaeth

Mae gweithio mewn partneriaeth â darparwyr ac asiantaethau eraill yn allweddol i Reoli Dedfrydau'n llwyddiannus, gan gynnwys rhannu gwybodaeth i ddiwallu anghenion a rheoli risg. Mae ein Hasiantaeth, HMPPS, am drawsnewid canlyniadau drwy weithio mewn partneriaeth ac mae'r Gwasanaeth Prawf yn ganolog i hyn.


“ Mae gweithio mewn partneriaeth â darparwyr ac asiantaethau eraill yn allweddol i Reoli Dedfrydau'n llwyddiannus.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn cydweithio â'u cydweithwyr yn HMPPS ac â phartneriaid system i reoli rhai achosion o dan drefniadau Rheoli Achosion Integredig lleol neu Ddulliau System Gyfan. Bydd hyn yn cyfrannu at gynlluniau lleihau aildroseddu fel rhan o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol neu drefniadau partneriaeth lleol/rhanbarthol eraill, gan gynnwys rhai â phwyslais ar atal troseddu gan unigolion sydd wedi troseddu ar sawl achlysur.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn gweithio â phartneriaid lleol eraill, gan gynnwys iechyd a phartneriaid cysylltiedig, i gryfhau adsefydlu, cynhwysiant cymdeithasol ac i wella canlyniadau, gan gynnwys ar ôl rhyddhau unigolion o garchar.

Cynllunio busnes a chomisiynu

Rydym yn bwriadu creu proses gynllunio ar gyfer y rhanbarthau. Ein nod yw creu model syml sy'n dangos cerrig milltir allweddol a chynnyrch ar gyfer rhanbarthau. Bwriedir i'r dyluniad cylch busnes gael ei gymhwyso hefyd i wasanaethau sy'n cael eu cyd-gomisiynu, rhanbarthau datganoledig, ac i alluogi cynllunio ar lefel isranbarthol gan gynnwys unedau darparu lleol, sy'n gweithio mewn cydweithrediad â'r HMPPS ehangach.



Yn ogystal â chynnig model syml ar gyfer y cylch busnes rydym am gadarnhau y bydd dull seiliedig ar dystiolaeth ym mhob cam, a chreu proses dryloyw ar gyfer pennu'r blaenoriaethau ac atebolrwydd am ddarparu o fewn cyd-destun strategol ehangach HMPPS.

Galluogwyr

Mae ein dull wedi'i ddatblygu i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd a'r trefniadau caniatâd yn sgil gweithredu dedfryd, ond nid yw hyn ac ni all fod yr unig weithgaredd sy'n lleihau trosedd.

Mae ein strwythur rhanbarthol newydd a'r tîm arweinyddiaeth wedi'u datblygu i hyrwyddo a galluogi ymateb system gyfan i ymataliad. Drwy gydweithio â chydweithwyr o fewn HMPPS ehangach, ac mewn partneriaeth â phartneriaid system a chomisiynwyr lleol, bydd ein harweinyddion yn ymdrechu i feithrin cysylltiadau cymunedol da a all nid yn unig leihau aildrosedd ac amddiffyn y cyhoedd, ond hefyd gyfoethogi a grymuso unigolion. Mae'r ddarpariaeth hon yn cynnwys cyfle ar gyfer darpariaeth wedi'i thargedu'n benodol, sy'n amrywio o gymorth cyn ac ar ôl dedfryd i ddarpariaeth fentora ac eiriolaeth leol i rai â'r angen mwyaf.

Efallai y bydd angen buddsoddiad ar ddarpariaeth y dyfodol yn y rhanbarthau ac efallai na fydd peth o'r hyn rydym yn ceisio'i brynu yn bodoli ar y pryd, ond rydym am ddylunio a buddsoddi mewn darpariaeth a fydd yn cefnogi'r nodau hyn. Ein huchelgais yw sefydlu Cronfa Ganlyniadau ac Arloesi Rhanbarthol fel rhan o'n darpariaeth yn erbyn blaenoriaethau ehangach HMPPS, canlyniad a fwriedir ar gyfer hynny fydd

gweithio â'n cydweithwyr yn HMPPS a phartneriaid i greu amgylchedd mwy cefnogol ar gyfer darpariaeth dedfrydau a fydd yn lleihau aildrosedd.

4. Darpariaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol

Mae'r adran hon yn disgrifio rôl yr Ymarferwyr Prawf yn yr NPS ac mae'n nodi swyddogaethau Rheoli Dedfrydau a rhoi cyngor i lysoedd.

4.1. Rôl yr Ymarferwyr Prawf: asesu, amddiffyn a newid

O fewn cyd-destun strategol ehangach HMPPS, gan gyfeirio at yr egwyddor 'galluogi pobl i wneud eu gorau,' mae rôl staff prawf proffesiynol i asesu, amddiffyn a newid yn allweddol. Yn system Prawf y dyfodol, ni fydd dim newid i'r fframwaith statudol y mae'r rôl yn gweithredu o fewn iddo. Mae'r elfennau o rôl Ymarferwyr Prawf a ddiffinnir mewn deddfwriaeth yn parhau'n ddigyfnewid. Fodd bynnag, rydym am ddiffinio sgiliau, gweithgareddau ac ymddygiadau allweddol, sy'n sail i rôl Ymarferwyr Prawf, yn well, a rhoi pwyslais penodol ar ba mor ganolog yw hyn i sicrhau newid effeithiol mewn unigolion. I alluogi staff prawf i roi pwyslais ar hyn, rydym yn gwahaniaethu'n fwy pendant rhwng swyddogaethau allweddol rôl Ymarferwyr Prawf.

Fel rhan o hyn, rydym yn cydnabod bod symud pobl ifanc o Dimau Troseddau leuenctid i wasanaethau prawf oedolion yn gymhleth a bod angen cymorth penodol i leihau'r risg o aildrosedd ac ar gyfer nodweddion bregus sy'n cael eu harddangos.

Mae'r gofynion pontio presennol ar gyfer pobl ifanc 17 a hanner oed i'w cael yn y Protocol Pontio Cenedlaethol <https://www.gov.uk/government/publications/joint-national-protocol-for-transitions-in-england>. Cafodd hwn ei gynhyrchu ar y cyd gan yr NPS a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid (YJB) a bydd yn cael ei adolygu'n unol ag amserlenni ar gyfer y model prawf newydd. Cafodd y crynodeb hwn ei baratoi cyn yr adolygiad llawn o'r protocol i alluogi Timau Troseddau Ieuencid, yr NPS a gwasanaethau CAC i nodi'r status quo neu, yn wir, i ddechrau cynllunio ar gyfer newidiadau yn 2021.

4.2. Rôl Ymarferwyr Prawf mewn asesu ac amddiffyn y cyhoedd

Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:

- ▲ Asesu risg o niwed (i eraill ac i'w hunain) a'r risg o aildroseddu.
- ▲ Datblygu cynllun â rhai sydd dan ein goruchwyliaeth i ganfod sut mae eu meysydd angen wedi'u cysylltu â risg o aildroseddu a sut y caiff yr anghenion hynny sylw. Pan yn berthnasol, bydd hynny'n cynnwys cynllun i ddangos sut y bydd risg o niwed difrifol yn cael ei rheoli.
- ▲ Gweithredu ac adolygu'r cynllun.
- ▲ Rheoli risg – penderfyniadau ar weithgarwch cyfyngol, cysylltu amlasiantaeth a galluogi'r unigolyn i ganfod eu cymhellion a'u galluedd eu hunain i reoli a lleihau'r risg maent yn ei harddangos.
- ▲ Gorfodi.
- ▲ Manteisio ar gwblhau'r cyfnod goruchwylio'n llwyddiannus a galluogi pontio esmwyth ar ddiwedd cysylltiad statudol.

4.3. Rôl Ymarferwyr Prawf i hybu newid


Fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Rhaglen Diwygio Prawf, byddwn yn adolygu ein cyfleoedd dysgu a datblygu cyfredol ac yn defnyddio hyn fel sail i ddatblygu cyfleoedd newydd a fydd yn hybu datblygiad parhaus y sgiliau a'r galluedd y bydd eu hangen ar y gweithlu prawf i weithredu'n llwyddiannus yn ein system brawf ar gyfer y dyfodol.

Byddwn yn gweithio i roi pwyslais mwy pendant ar y sgiliau a'r ymddygiadau allweddol hynny y bydd angen i Ymarferwyr Prawf eu harddangos wrth iddynt helpu unigolion ar eu taith at ymataliad. I wneud hyn yn effeithiol, ac yn gydnaws ag egwyddor HMPPS o 'ddiwylliant dysgu agored' bydd angen i Ymarferwyr Prawf feddu ar ddealltwriaeth o'r modelau a'r dulliau damcaniaethol hynny sydd fwyaf effeithiol i alluogi unigolion i ymgymryd â'r daith hon ac ystod y sgiliau a fydd yn cael eu defnyddio yn eu gwaith un i un. Mae prif elfennau'r gwaith newid hwn yn debygol o gynnwys:

(i) Meithrin perthynas sy'n seiliedig ar ymddiriedaeth i hybu cydymffurfiaeth, cynyddu gobaith a chynnal cymhelliant.

I gyflawni hyn, bydd Ymarferwyr Prawf yn:

- ▲ Meithrin perthynas bositif, gydweithredol ac un sydd wedi'i seilio ar ymddiriedaeth sy'n cyfleu parch ac sy'n annog hunan barch.
- ▲ Mynegi hyder yng ngallu'r unigolyn i roi'r gorau i droseddu ac i wneud dewisiadau gwahanol.



- ▲ Magu cymhelliant a'r ymdeimlad bod ganddynt (yr unigolyn sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf) rôl i reoli ei hadsefydliad. Dylai'r cyfnod goruchwyllo alluogi'r unigolyn i fod yn gyfranogwr mwy a mwy gweithredol.
- ▲ Pwysleisio ei bod yn gallu cymryd amser i newid patrymau ymddygiad gydol oes a phroblemau sylfaenol, felly rhaid disgwyl llithro yn ôl a rhaid peidio ag anobeithio.
- ▲ Cydnabod a gwobrwyo ymdrechion i roi'r gorau i droseddu ac annog ac atgyfnerthu newid positif.

(ii) Gwneud penderfyniadau ynglŷn ag ymyriadau i ddiwallu angen a rheoli risg yn ddynamig, gan gynnwys newid y rhain wrth i amgylchiadau newid.

Dylai Ymarferwyr Prawf oruchwyllo dewis a dilyniant mewn darpariaeth ymyriadau adsefydlu; a:

- ▲ Defnyddio dulliau anffurfiol ac unigol i helpu unigolyn i ganfod nodau ac i weithio i'w cyflawni heb niweidio eraill.
- ▲ Meddu ar y sgiliau i addasu eu darpariaeth i adlewyrchu anghenion yr unigolyn, a all fod yn gysylltiedig ag aeddfedrwydd, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd dysgu a heriau ac ati.
- ▲ Trefnu ymyriadau sy'n blaenoriaethu'r angen i ddiwallu anghenion brys, sylfaenol ond sydd hefyd yn adlewyrchu gallu'r unigolyn ei hun i newid.
- ▲ Cydnabod ac adeiladu ar gryfderau a helpu unigolion i gyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy.

(iii) Atgyfnerthu cynnydd a ffyrdd newydd o feddwl ac ymddwyn i hybu newid ymddygiadol.

Mae'r berthynas rhwng Ymarferwyr Prawf a'r unigolyn yn gyfle i:

- ▲ Hybu ac atgyfnerthu dysgu effeithiol drwy ymyriadau a chynnig cyfleoedd i ymarfer sgiliau newydd a myfyrio ar y dysgu hwn.
- ▲ Dysgu sgiliau cymdeithasol – gall Ymarferwyr Prawf helpu'r unigolyn i feithrin cysylltiadau â'r teulu a ffrindiau, a hefyd â rhwydwaith rhag-gymdeithasol ehangach i helpu ailintgreiddio.
- ▲ Helpu'r unigolyn wrth iddynt ffurfio hunaniaeth newydd a dilyn ffordd o fyw heb droseddu.

Mae hwn yn waith medrus dros ben, dros y tymor hir ac sy'n cael ei ailadrodd. Mae angen gwahaniaethu'n glir rhwng ymyriadau adsefydlu a ddarperir gan ddarparwyr arbenigol gyda'r nod o roi sylw i anghenion crimogenig allweddol neu anghenion carfannau penodol a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Ymarferwyr Prawf sy'n gweld y berthynas hon â'r unigolion a oruchwylir ganddynt fel y brif ffordd o'u helpu at y daith i ymataliad.

4.4. Cyngor i'r llysoedd a Rheoli Dedfrydau Crynodeb

Asesu:

Mae Ymarferwyr Prawf yn darparu asesiadau o safon, gan ddefnyddio crebwyll proffesiynol i adlewyrchu cymhlethdod amgylchiadau unigol ac yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol a geir gan bartneriaid.

Bydd Ymarferwyr Prawf mewn llys yn cael eu hyfforddi, eu datblygu a byddant yn gymwys i adnabod risgiau perthnasol ac i ddarparu eiriolaeth mewn Llys. Bydd gan eu hasesiad gydbwysedd rhwng risg, angen, ymatebolrwydd, adsefydlu a chanllawiau dedfrydu.


Bydd Rheoli Dedfrydau Cymunedol yn cael ei ddarparu drwy'r NPS gyda dyraniad amserol ar ôl dedfrydu. Bydd dyraniad prydlon yn helpu i roi pwyslais cynnar ar anghenion unigol.

Bydd Ymarferwyr Prawf mewn Llys yn cynnal asesiad trylwyr o risg ac angen, gan adeiladu ar yr wybodaeth a gafwyd cyn dedfrydu. Byddant yn datblygu cynllun dedfrydu gyda'r unigolyn a fydd yn rhoi pwyslais ar weinyddu cyfiawnder drwy adsefydlu, rheoli a lleihau niwed a lleihau aildroseddu.

Amddiffyn:

Bydd Ymarferwyr Prawf mewn Llys yn cyflawni eu dyletswyddau gyda dioddefwyr a dioddefwyr posibl mewn golwg. Bydd eu cynigion yn cynnwys rheolaethau cyfyngol pan yn briodol i ddiogelu dioddefwyr. Byddant yn cynnal cyfweiliadau ar ôl dedfrydu i ganfod nodweddion bregus ac anghenion lles a gorfodaeth gadarn ac amserol.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn cyflawni dedfryd y Llys, gan weithio i leddfu a rheoli risg o niwed difrifol ac o aildroseddu. Byddant yn sicrhau bod gofynion amddiffynnol a chyfyngol ar waith a'u bod yn cael eu hadolygu. Bydd Ymarferwyr Prawf yn sicrhau fod cyfiawnder yn cael ei weinyddu ac yn gorfodi'r ddedfryd i helpu i amddiffyn dioddefwyr.



Newid:

Drwy ddylanwadu a hyder cynyddol mewn llysoedd gan ddefnyddio eu crebwyll asesu a phroffesiynol arbenigol, bydd Ymarferwyr Prawf mewn Llys yn nodi ac yn argymhell dedfryd sy'n addas, y gellir ei chyflawni a fydd yn arwain at newid. Bydd cyngor i'r llys yn annibynnol a gwrthrychol fel y'i diffinnir mewn statud.

Pan yn briodol, byddant yn hyrwyddo dedfrydau yn y gymuned fel opsiwn i gynyddu'r defnydd o ofynion cymunedol fel y datrysiad mwyaf effeithiol i gyflawni newid mewn ymddygiad.

Bydd Ymarferwyr Prawf yn gweithio i gyflawni'r nodau tymor hir o unigolion yn byw bywydau positif, heb droseddu, yn y gymuned. Byddant yn cyfeirio at wasanaethau arbenigol sydd ar gael i sicrhau bod gofynion y ddedfryd yn briodol i'r risgiau a'r anghenion a nodwyd yn y cynllun dedfryd mewn modd amserol.

Byddant yn cymell ac yn meithrin yr ymdeimlad bod ganddynt (yr unigolyn dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf) rôl mewn rheoli eu hadsefydlu, gan ddefnyddio dulliau seiliedig ar dystiolaeth i ddatrys problemau, meithrin perthnasoedd positif, canfod a threfnu ymyriadau adsefydlu a hybu a helpu dysgu effeithiol o'r ymyriadau hynny y manteisir arnynt.

Rheoli Dedfrydau yw cyfrifoldeb craidd y Gwasanaeth Prawf ac mae'n cynnwys cyflawni dedfryd y Llys yn effeithiol, gan sicrhau bod y rhai sy'n cael gorchmynion dedfryd gymunedol/ohiriedig a goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu'n cael eu goruchwyllo'n briodol, bod gofynion yn cael eu cyflawni, bod anghenion sy'n gysylltiedig â throsteddu'n cael eu canfod, bod risgiau'n cael eu rheoli a bod camau gorfodi prydlon yn cael eu cymryd yn dilyn achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth.

Yn ychwanegol at eu dyletswyddau craidd i gynghori'r Llys a Rheoli Dedfrydau, bydd yr NPS yn cadw cyfrifoldeb am ddarparu rhai Ymyriadau achrededig a strwythuredig sy'n gysylltiedig â charfannau penodol o droseddau ym maich achosion yr NPS, sef troseddau rhyw, eithafiaeth a throsteddu cyfundrefnol difrifol. Nid ydym yn bwriadu newid cyfrifoldeb am weithredu'r ymyriadau hyn ar hyn o bryd gan fod yr arbenigedd i'w cyflawni (a'r pecynnau asesu perthnasol ac ati) yn bodoli o fewn yr NPS.

Bydd uno Rheoli Dedfrydau o fewn un sefydliad yn lleihau cymhlethdod y system gyfredol ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni mewn ffordd fwy cydlynus ac effeithlon. Bydd ein model yn adeiladu ar y gwelliannau sydd ar waith mewn CACau a'r NPS a'r nod fydd gweld:

- ▲ Seilwaith Digidol TGCh gwell ar gyfer staff Llysoedd cyn dedfrydu ac ar gyfer rheoli ar ôl dedfrydu.
- ▲ Asesiadau ac adroddiadau Llys gwell sy'n cynnig dedfrydau a gofynion effeithiol i roi sylw i risgiau ac anghenion a ganfuwyd a lleihau aildroseddu.
- ▲ Proses ddyrannu well sy'n amserol ac sy'n annog pwyslais cynnar ar anghenion unigolion.
- ▲ Asesiadau o risg ac o anghenion a chynllunio dedfrydau sy'n meithrin dull cydweithredol o ymgysylltu ag unigolion sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf.
- ▲ Gofynion mwy eglur o ran amllder cysylltiadau wyneb yn wyneb.
- ▲ Gofynion mwy eglur o ran ymweliadau cartref lle mae ystyriaethau amddiffyn plant/cam-drin domestig.

“ Bydd uno Rheoli Dedfrydau o fewn un sefydliad yn lleihau cymhlethdod y system gyfredol ac yn sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni mewn ffordd fwy cydlynus ac effeithlon.

- ▲ Goruchwyliaeth reoli gryfach i ategu crebwyll proffesiynol a phenderfyniadau gorfodi i wella cydymffurfiaeth ac i hybu hyder dedfrydwyr a'r cyhoedd.
- ▲ Mwy o hyblygrwydd i reoli ffactorau risg dynamig gan sicrhau parhad Rheoli Dedfrydau.
- ▲ Ymarferwyr Prawf yn manteisio ar arbenigedd pobl eraill i leihau aildroseddu a niwed.

Wrth weithio â Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i leihau oedi yn y system gyfiawnder, yn gydnaws â nodau ehangach y Weinyddiaeth Gyfiawnder, bydd heriau yn y llysoedd eu hunain. Bydd angen inni gynyddu ein dylanwad a gweithio ag eraill yn y llysoedd, gan gynnwys Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi a dedfrydwyr, i ganfod y ffordd orau o wella asesiadau ac adroddiadau. Bydd mwy o hyder yn y cyngor a roddir a'r adroddiadau a gyflwynir i'r llys yn helpu dedfrydu mwy diogel gyda gofynion i roi sylw i risg a'r anghenion a ganfyddir a lleihau aildroseddu pellach, yn ganolog i gyfrifoldebau HMPPS ac i amcanion cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol.

Bydd integreiddio staff Rheoli Dedfrydau o CACau a chyn strwythur yr NPS yn ad-drefnu perthnasoedd gweithio, gan sefydlu agenda broffesiynol a rennir a chanfod amcanion sefydliadol newydd sy'n gydnaws â'r pedair egwyddor strategol a'r cynlluniau ehangach ar gyfer HMPPS fel un Asiantaeth. Bydd angen i'r broses gael ei rheoli'n ofalus ac yn sensitif ond rhagwelir y bydd y buddiannau'n cynnwys gwelliant yn safon Rheoli Dedfrydau, defnydd cyson o ymyriadau a gweithgarwch y gwyddys sy'n effeithiol a'r potensial am gydymffurfiaeth ac ymgysylltu gwell, gan helpu i adfer dedfrydu a hyder y cyhoedd.

Mae dealltwriaeth gyffredinol o rôl Ymarferwyr Prawf yn hanfodol i lwyddiant y dull. Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth gref i feithrin y newid cywir mewn diwylliant a hyfforddiant i staff. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod Ymarferwyr Prawf wedi'u galluogi i gyfeirio at a brocer gwasanaethau sydd wedi'u caffael, gan gefnu ar ddarpariaeth fewnol a throi at ddefnydd effeithiol o ddarpariaeth sydd newydd ei chaffael.

5. Gweddnewid drwy bartneriaethau: arloesi a gweithio â phartneriaid i adsefydlu pobl

5.1. Rôl y darparwr yn narpariaeth ymyriadau

Mae tystiolaeth y gall cyfuniad o ymyriadau effeithiol a sgiliau staff mewn ymgysylltu a chymell unigolion sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf leihau aildroseddu. Mae'n bwysig, felly, bod Ymarferwyr Prawf yn gallu cael gafael ar wasanaethau arbenigol sy'n diwallu anghenion criminogenig penodol neu anghenion carfannau penodol.

Fel rhan o gyflawni yn erbyn yr egwyddor strategol 'diwylliant dysgu agored,' rydym yn awyddus i ategu rhaglenni achrededig ag ymyriadau sy'n rhoi sylw i anghenion adsefydlu ac ailsefydlu hysbys o gymysgedd o lwybrau darpariaeth, gan gynnwys darpariaeth arbenigol yr NPS, Partneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf, y Fframwaith Dynamig, a phartneriaid eraill, gan gynnwys Adrannau eraill y Llywodraeth.

Rydym yn bwriadu contractio darpariaeth ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu ar gyfer y rhai hynny â Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu ac ar gyfer rhai ar Drwydded. Bydd yr ymyriadau hyn yn rhoi sylw i

feysydd angen sydd naill ai'n cael eu cysylltu'n gryf ag aildroseddu neu sy'n cynnig y sefydlogrwydd sydd ei angen ar unigolyn i ganolbwyntio ar faterion eraill.

Bydd y Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf yn ffurfio rhan bwysig o ddarpariaeth y Gwasanaeth Prawf gyda chyfrifoldeb am Waith Di-dâl a Rhaglenni Achrededig. Hefyd, byddwn yn cynnwys Ymyriadau Strwythuredig sy'n rhoi sylw i feysydd rheoli emosiynau, agweddau, meddwl ac ymddygiad (ar gyfer achosion nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Rhaglen Sgiliau Meddwl achrededig) a cham-drin domestig (ar gyfer rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer Adeiladu Perthnasoedd Gwell).

Bydd cyflwyno'r Fframwaith Dynamig yn galluogi'r Cywyddwyr Prawf Rhanbarthol i gaffael ymyriadau y gellir eu cynnal fel dyddiau gweithgaredd Gofynion Gweithgaredd Adsefydlu neu ar gyfer rhai ar drwydded. Mae ein llwyth achosion yn amrywiol gyda rhai grwpiau o fewn y system wedi eu gorgynrychioli. Rydym yn disgwyl y bydd darparwyr yn dangos sut y byddant yn diwallu anghenion amrywiol y rhai sy'n cael dedfryd o gaethiwed neu ddedfryd gymunedol sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym hefyd wedi ystyried meysydd blaenoriaeth o dan strategaethau Llywodraeth Cymru.

5.2. Contractio a darparu ymyriadau

Mae arnom eisiau i'r model yn y dyfodol ganiatáu i bawb a allai fod yn darparu gwasanaethau prawf, o unrhyw sector, chwarae eu rhan yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau prawf. Byddwn yn disgwyl i Gyfarwyddwyr Prawf Rhanbarthol brynu ymyriadau o'r farchnad, gyda rolau wedi'u diffinio'n glir i Bartneriaid Darparu Gwasanaethau Prawf a darparwyr gwasanaethau drwy'r Fframwaith Dynamig. Rydym yn glir bod arnom eisiau cadw rôl ar gyfer arloesi, adnabod a meithrin yr arferion gorau sydd wedi cael eu datblygu ers gweithredu Gweddnewid Adsefydlu, ond rydym yn glir hefyd ynghylch pwysigrwydd gosod disgwyliadau a safonau darparu sylfaenol.


“ Ein bod am gadw rôl i arloesi, canfod ac adeiladu ar yr ymarfer gorau a ddatblygwyd ers gweithredu Gweddnewid Adsefydlu.

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol i'n darpariaeth ac i sicrhau bod ein darpariaeth yn ymateb i anghenion a'r galw'n lleol. Bydd staff yn yr NPS, a'n darparwyr yn gweithio'n glos â'n partneriaid yn y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat yn ogystal â chydweithredu â'n cydweithwyr yn HMPPS. Byddwn hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i gyd-gomisiynu'r gwasanaethau hynny sy'n hanfodol i leihau aildrosedd â phartneriaid lleol fel Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, awdurdodau lleol a chomisiynwyr ieuchyd.

5.3. Y Fframwaith Dynamig

Bydd y Fframwaith Dynamig yn galluogi'r ymyriadau sy'n diwallu anghenion adsefydlu heb eu diwallu gan Raglenni Achrededig a ddarperir gan Bartneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf. O dan y Fframwaith Dynamig, bydd darpar ddarparwyr yn gymwys ar gyfer y Fframwaith yn ôl maes angen, gan nodi ym mha ardaloedd daearyddol y gallant weithredu. Bydd HMPPS wedyn yn cynnal cyfres o gystadlaethau yn ôl y gofyn, ymhlith y darparwyr hynny sydd wedi cymhwyso, i gaffael gwasanaethau blaenoriaeth sy'n ofynnol o gychwyn cyntaf (haf 2021) y model prawf newydd. Bydd rhai gwasanaethau sy'n cael eu caffael drwy'r Fframwaith o'r diwrnod cyntaf ar gael yn ystod cam olaf dedfryd o garchar ac ar ôl rhyddhau. Bydd rhanbarthau'r NPS wedyn yn gallu caffael ymyriadau, ar ôl y diwrnod cyntaf, i lenwi bylchau neu i ehangu'r ddarpariaeth. Bydd y Fframwaith Dynamig ar gael at ddefnydd comisiynwyr eraill gan gynnwys, er enghraifft: llywodraethwyr carchardai a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau.

Bydd ymyriadau a gwasanaethau sydd ar gael ar y Fframwaith Dynamig yn aml yn cynnig cymorth wedi'i lunio'n bwrpasol i helpu unigolion i oresgyn rhwystrau ac i barhau i ymgysylltu â gwasanaethau lleol yn hytrach na'u darparu'n uniongyrchol. Gallai enghraifft o hyn gynnwys mynediad at lety addas a chynnal hyn drwy help gyda sgiliau byw'n annibynnol. Bydd math a natur y gwasanaethau hyn yn amrywio o ardal i ardal a bydd angen iddynt gael eu comisiynu mewn ffordd sy'n ymateb i amrywiadau a gofynion lleol a rhanbarthol.



Gwasanaethau adsefydlu ac ailsefydlu drwy'r Fframwaith Dynamig Crynodeb

Asesu:

Bydd Ymarferwyr Prawf yn gyfrifol am yr asesiadau sy'n canfod yr anghenion adsefydlu ac ailsefydlu pennaf a'r ymyriadau priodol i roi sylw iddynt. Byddant yn penderfynu ar drefn yr ymyriadau a byddant yn ymateb i wybodaeth newydd neu newid mewn amgylchiadau sy'n awgrymu bod angen ymyriadau gwahanol.

Amddiffyn:

Mae Ymarferwyr prawf yn gweithio'n rhagweithiol i warchod dioddefwyr cyfredol a dioddefwyr posibl. Byddant yn gweithio â darparwyr i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn ymateb i faterion penodol a ganfyddir mewn asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg.

Newid:

Ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu fydd y prif gyfrwng sy'n galluogi Ymarferwyr Prawf i fanteisio ar wasanaethau arbenigol ar gyfer unigolion i roi sylw i faterion sy'n gysylltiedig â throseddau. Byddant yn rhoi pwyslais ar waith i symbylu ac i helpu gwaith strwythuredig a'r sgiliau a ddysgwyd i symud ymlaen i fywyd rhag-gymdeithasol.

Bydd ymyriadau a gwasanaethau a gomisiynir gan adrannau eraill o'r llywodraeth, eu hasiantaethau neu sefydliadau gyflenwi lleol, fel Gofynion Triniaeth Iechyd Meddwl, hefyd yn cael eu cefnogi gan yr Ymarferwyr Prawf i atgyfnerthu cynnydd mewn newid ymddygiadol, cynnal gobaith a chymhelliant. Er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i unigolion, bydd Ymarferwyr Prawf a darparwyr gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth i rannu gwybodaeth, helpu unigolion i newid a chyflawni canlyniadau a fwriadwyd.

Gwasanaethau Adsefydlu drwy'r Fframwaith Dynamig

Adsefydlu yw prif swyddogaeth y gwasanaeth prawf. Mae ein dyluniad, fodd bynnag, yn cydnabod bod angen dull cydweithredol sy'n ymatebol yn lleol i gyflawni canlyniadau adsefydlu y mae modd eu cynnal. Rydym am sicrhau bod unigolion yn cael ymyriadau sy'n wedi'u dylunio a'u darparu'n dda i gynyddu eu

siawns o fyw bywydau heb droseddau.

Rydym am i'r ymyriadau a'r gwasanaethau:

- ▲ Cael eu targedu yn dda i roi sylw i'r meysydd angen sydd naill ai'n cael eu cysylltu'n gryf ag aildroseddau neu sy'n cynnig y sefydlogrwydd sydd ei angen ar unigolion.


- ▲ Cynnwys cymorth wedi'i deilwra sy'n cydnabod cefndiroedd ac anghenion amrywiol unigolion, wedi'u ddarparu mewn ffordd wedi'i chynllunio'n ofalus i ddiwallu'r anghenion hynny ac i gyflawni canlyniadau.
- ▲ Cynnwys cydweithredu â phartneriaid lleol, gan gynnwys sefydliadau sector gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol, awdurdodau lleol, a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu i sicrhau bod unigolion yn cael cyfle i fanteisio ar yr holl gyfleoedd sydd ar gael.
- ▲ Cael eu darparu gan farchnad gymysg amrywiol o ddarparwyr gwasanaeth, gan wneud y gorau o arbenigedd o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol.
- ▲ Gwella hyder barnwrol a rhanddeiliaid eraill yn yr ymyriadau a fydd ar gael i rai dan oruchwyliaeth y Gwasanaethau Prawf.

Byddwn yn manylu ar y canlyniadau rydym am eu cyflawni drwy'r ymyriadau adsefydlu a ddarperir o dan y Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu ac i bobl ar drwydded, gan gynnwys goruchwyliaeth ar ôl dedfrydu. Bydd ein pwyslais ar ddangos y cynnydd a wneir gan bob unigolyn sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf.

Er y bydd yr ymyriadau uchod yn diwallu llawer o anghenion y llwyth achosion prawf sy'n codi'n aml, ac rydym yn credu mai gofynion triniaeth yw'r ymyriad mwyaf priodol i'r sawl sy'n gymwys. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, NHS England a Public Health England wedi cydweithio i ddatblygu protocol newydd i roi sylw i niferoedd isel gofynion triniaeth ac i wella mynediad at wasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar gyfer yr unigolion sydd eu hangen.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r cynllun hwn ac i wneud y defnydd gorau o Ofynion Triniaeth Dedfrydau Cymunedol (Iechyd Meddwl, Gofynion Adsefydlu Alcohol a Chyffuriau).

Rydym am sicrhau bod ymyriadau'n cyfateb â'r ddarpariaeth statudol ac eraill sydd ar gael yn lleol ar y pryd. Rydym am sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n golygu ei bod yn hawdd cael gafael arnynt a'u bod yn diwallu'r anghenion blaenoriaeth ym mhob rhanbarth.



Tabl 1. Meysydd o angen ar gyfer gwasanaethau adsefydlu a'r canlyniadau dymunol

Anghenion	Canlyniadau
Llety	• Cael a chynnal llety • Atal digartrefedd
Cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg	• Cael a chynnal cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg briodol • Dileu rhwystrau a gwella sgiliau
Cyllid, budd-daliadau a dyledion	• Incwm cyson a chyfreithlon gan leihau dyled • Sgiliau gwell i reoli arian
Teulu ac unigolion arwyddocaol eraill	• Perthnasau agos sy'n ddiogel ac yn gadarnhaol • Gwella perthnasau gyda theulu/Gwella'r gallu i fod yn rhiant
Ffordd o fyw a ffactorau cysylltiedig	• Cefnogaeth a diddordebau cymdeithasgar • Llai o ddylanwad gan unigolion negyddol
Lles emosiynol a phersonol	• Gwell sgiliau a strategaethau ymdopi • Gallu cydymffurfio'n well â thriniaeth/meddyginiaeth
Dibyniaeth ar gyffuriau, alcohol, ac ati.	• Gallu rheoli sefyllfaoedd risg uchel yn well • Mynediad at gefnogaeth arbenigol
Mentora/cynhwysiant cymdeithasol	• Pontio'n llwyddiannus e.e. o'r ddalfa i'r gymuned • Gallu rheoli sefyllfaoedd heriol yn well a gallu ymgysylltu â gwasanaethau a chyfleoedd eraill

5.4. Ailsefydlu o garchar i'r gymuned: y model newydd Crynodeb

Asesu:

Bydd Ymarferwyr Prawf yn cwblhau asesiadau trylwyr o'r holl unigolion sy'n cael eu carcharu a'u rhyddhau o garchar ar ôl dedfrydau byr. Nod asesiadau cyflymach fydd sicrhau bod cymorth ymarferol ar gael i gynnal gwasanaethau (budd-daliadau, tai, swyddi) am hyd at chwe mis yn ystod dedfrydau o garchar ac a fydd yn parhau ar ôl iddynt gael eu rhyddhau.

Yn achos dedfrydau hwy o garchar, bydd Ymarferwyr Prawf mewn carchardai sy'n dilyn y model Rheoli Troseddwy'r Dan Glo newydd yn trosglwyddo atebolrwydd am yr unigolyn sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf (gan gynnwys asesiadau) saith i wyth mis cyn rhyddhau i Ymarferwyr Prawf Cymunedol. Mae eglurder atebolrwydd asesu'n golygu bod Ymarferwyr Prawf yn gallu sicrhau bod un cynllun yn gyrru cynllunio cyn ac ar ôl rhyddhau i sicrhau bod y mesurau amddiffyn a'r ymyriadau newid cywir ar waith ar yr adeg gywir.

Amddiffyn:

Prif rôl y gwasanaethau prawf yn ystod y cyfnod cyn rhyddhau yw hybu cymhelliad, lleihau'r perygl o aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, gan gynnwys dioddefwyr.

Bydd y model ailsefydlu newydd yn:

- ▲ Canfod a chael gafael ar y gwasanaethau cywir i bob unigolyn a gwneud hyn yn brydlon, cyn rhyddhau.
- ▲ Sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y lle cywir ac ar yr adeg gywir.
- ▲ Meithrin perthnasoedd proffesiynol ag unigolion cyn ac ar ôl rhyddhau fel y bydd dilyniant mewn cymorth a gweithredu fel pont rhwng carchar a'r gymuned.
- ▲ Ystyried risg yr unigolyn, eu hanghenion, eu cryfderau ac amgylchiadau ffordd o fyw ehangach ar gyfer ailsefydlu.
- ▲ Defnyddio'r amser cyn rhyddhau ychwanegol i ymgysylltu â'r carchar ac asiantaethau statudol eraill (diogelu, Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd, yr heddlu, cyswllt dioddefwyr) i sicrhau bod rheolaethau a monitro clos ar waith, yn ôl yr angen.

Newid:

Bydd set graidd o wasanaethau'n cael eu darparu mewn carchardai yn y dyfodol (mwy o hawliadau am fudd-daliadau, gwasanaethau teuluol, iechyd a gwasanaethau sy'n rhoi sylw i anghenion o ran addysg, hyfforddiant a chyflogaeth). Bydd gwasanaethau eraill i hybu adsefydlu, gwneud iawn, ailintegreiddio a chynhwysiant cymdeithasol ar gael a byddant yn cael eu darparu naill ai drwy Ymarferwyr Prawf, trefniadau cyd-gomisiynu rhanbarthol rhwng y gwasanaeth prawf, carchardai a chomisiynwyr lleol eraill (Comisiynwyr Heddlu a Throsedd; Grwpiau Comisiynu Clinigol), y Fframwaith Dynamig a Phartneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf.

Bydd y gymysgedd hon o ddarpariaeth a darparwyr, sy'n helpu ailsefydlu a defnydd o ryddhau ar drwydded dros dro ar gyfer gwaith newid yn cynnig pecyn lleol o ymyriadau gyda'r nod o wella'r canlyniadau i rai sy'n gadael carchar.

Mae'r model yn adlewyrchu'r angen a'r cyfle i gydweithio â'n cydweithwyr yn y carchardai i gyflawni'r canlyniadau gorau. Bydd y model ailsefydlu yn cryfhau'r integreiddio rhwng carchardai a'r gwasanaeth prawf yn y gymuned, gan ddysgu o'r dull drwy'r giât cyfredol i sicrhau bod y model yn gallu addasu ond ei fod hefyd yn ddigon hyblyg i addasu i newidiadau ar draws y system gyfan a rhoi ffordd fwy effeithiol ac effeithlon inni o gyflwyno ailsefydlu.

Rydym yn datblygu ein hymagwedd tuag at ailsefydlu ochr yn ochr â Rheoli Troseddwyr Dan Glo – gyda'r bwriad o wella diogelwch, lleihau'r tebygrwydd o hunan niweidio a thrais mewn carchardai, drwy feithrin perthnasoedd gwell rhwng staff ac unigolion. Elfen allweddol o hyn yw dyrannu Ymarferwyr Prawf yn y gymuned ar adeg gyson cyn rhyddhau fel y bydd mwy o bwyslais ar baratoi'r unigolyn ar gyfer ailsefydlu a rhoi sylw i unrhyw rwystrau rhag ailintegreiddio'n llwyddiannus yn y gymuned. Bydd hyn yn galluogi Rheolwyr Troseddwyr mewn Carchardai a gweithwyr allweddol sy'n rhan o'r strwythur Rheoli Troseddwyr Dan Glo i ymateb yn well i anghenion unigol.

“ Bydd y model ailsefydlu yn cryfhau'r integreiddio rhwng carchardai a'r gwasanaeth prawf yn y gymuned.

Mae'r model Prawf newydd wedi rhoi cyfle i integreiddio rolau, prosesau a chynnyrch drwy'r giât gyda Rheoli Dedfrydau, gan alinio darpariaeth â'r risg sy'n cael ei harddangos gan yr unigolyn. Mae'r model yn golygu cymorth pwrpasol un i un gwell i unigolion pan fyddant yn y carchar, gan alluogi dulliau mwy diogel, wedi'u cynllunio'n well, sy'n dryloyw, sy'n fesuradwy a threfnus ar gyfer pawb sy'n gadael carchar. Mae hefyd yn cynnig y cyfleoedd canlynol:

- ▲ Cael gwared ar ddyblygu rolau a thasgau rhwng drwy'r giât a Rheoli Dedfrydau yn y carchar ac yn y gymuned.
- ▲ Gwella cynllunio cyn rhyddhau drwy Ymarferwyr Prawf yn y gymuned rhwng 12 wythnos a thua saith mis a hanner.
- ▲ Darparu gwasanaeth drwy'r giât – nid at y giât – drwy addasu ein hymagwedd at ymestyn i mewn – i baratoi erbyn y bydd unigolion yn dod allan.
- ▲ Teilwra gwasanaethau ar gyfer anghenion unigolion, gan ystyried effaith pontio o amgylchedd strwythuredig iawn y carchar i'r gymuned.
- ▲ Buddsoddi mewn gwasanaethau seiliedig ar le ar ôl rhyddhau yn y lleoliadau lle bydd yr unigolion yn cael eu rhyddhau iddynt – nid yn unig i'r fan lle mae'r carchar wedi'i leoli.
- ▲ Rhoi un person unigol gydag un cynllun dedfrydu i oruchwyllo a chydlynu pob gwasanaeth cyn ac ar ôl rhyddhau o garchar i'r gymuned.
- ▲ Wedi'i alinio'n strategol i gyd-fynd ac i gynnal trefniadau carchar a phrawf newydd, yn y dyfodol.


Bydd y symud oddi wrth drwy'r giât uwch i'r model ailsefydlu yn golygu newid diwylliant yn

y gwasanaeth prawf i roi mwy o flaenoriaeth i waith ailsefydlu. Bydd yr Ymarferwyr Prawf cymunedol yn gyfrifol am weithgaredd cyn rhyddhau a fydd yn cynnwys canfod anghenion o fewn asesiad cyn rhyddhau a chydlynu ymyriadau ailsefydlu.

Mae paratoi tuag at ryddhau yn rhan ganolog o waith Prawf. Rhaid wrth ddealltwriaeth o heriau symud o garchar i'r gymuned, Bydd yr ymyriadau hynny fydd ar gael drwy'r Fframwaith Dynamig yn sicrhau cymorth i unigolion i ailsefydlu ac integreiddio i'r gymuned. Bydd hyn yn golygu y bydd yn rhaid i Ymarferwyr Prawf cymunedol froceru gwasanaeth yn gynnar yn hytrach ag ymgymryd â'r gweithgaredd eu hunain. Mae'r profiad o ddefnydd presennol yr NPS o'r cerdyn prisiau yn awgrymu y bydd angen newid sylweddol yn ymddygiad ymarferwyr i sicrhau mwy o ddefnydd o wasanaethau wedi'u caffael.

Un o nodau canolog y model ailsefydlu yw rhoi mwy o 'afael' ar ddedfrydau tymor byr. Mae unigolion o fewn y garfan hon yn golygu her benodol oherwydd yr amser prin sydd ar gael, yn enwedig yn ystod y cyfnod dan glo, i weld unrhyw newid gwirioneddol. Bydd y pwyslais ar gynnal ymgysylltiad ag unrhyw wasanaethau cymunedol presennol a chychwyn ar y broses o atgyfeirio at wasanaethau yn y gymuned cyn gynted â phosibl i gau'r bwch rhwng rhyddhau a bod y gwasanaethau yn barod.

Yn 2018, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder fuddsoddiad ychwanegol o £22m y flwyddyn i sefydlogi a gwella ymhellach y ddarpariaeth drwy'r giât drwy fanyleb drwy'r giât well a ddarperir gan CACau mewn carchardai. Mae'r trefniadau hyn wedi bod ar waith ers 1 Ebrill 2019 a byddant yn parhau nes daw'r trefniadau newydd i rym.



5.5. Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf

Er mwyn cefnogi ein gweledigaeth o farchnad gymysg sy'n defnyddio'r gwasanaethau gorau o bob sector, rydym yn cynnal cystadleuaeth i brofi syniadau o'r farchnad i ddarparu gwaith di-dâl, rhaglenni achrededig ac ymyriadau penodol. Yn amodol ar ganlyniad yr ymarfer tendro, bydd hyn yn sicrhau bod Partner Darparu Gwasanaethau Prawf ym mhob rhanbarth i ddarparu Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig (ac eithrio'r rheini sydd wedi'u cadw i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol) ac Ymyriadau Strwythuredig yn y tri maes craidd sef rheoli emosiynau, cam-drin domestig ac agweddau, meddwl ac ymddygiad. Rhaglenni Achrededig yw'r ymyriad y byddai Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn ei ddewis, oherwydd ei fod wedi'i gefnogi gan sylfaen dystiolaeth gadarn.

Egwyddorion craidd y berthynas rhwng HMPPS a'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf fydd:

- ▲ Gweledigaeth, diwylliant ac ymddygiadau wedi'u halinio sy'n cefnogi diwylliant adsefydlu.
- ▲ Ymrwymiad i weithio gydag ac ar draws nifer o asiantaethau a phartneriaid cyflenwi.
- ▲ Gwir ethos partneriaeth, gyda chydweledigaeth a chydweithio i roi sylw i unrhyw broblemau mae'r naill barti neu'r llall yn eu profi.
- ▲ Parch y partneriaid at anghenion unigol ac atebolrwydd pob parti.

- ▲ Pwyslais clir ar ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, arloesi a gwelliant parhaus wrth ddarparu'r gwasanaeth, sy'n gydnaws ag egwyddor strategol HMPPS o 'ddiwylliant dysgu agored'.

Bydd HMPPS yn gosod gofynion contract ar Bartneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf o ran sut y byddant yn darparu elfennau penodol o'r ddarpariaeth a bydd yn rhaid iddynt hefyd arddangos y gallu i arloesi a datblygu ymarfer gorau yn eu darpariaeth. Bydd yr NPS yn atebol hefyd am ddarpariaeth ar draws y rhyngwyneb critigol gyda'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf. Bydd hyn yn cynnwys eu gallu i ddylunio a rhoi prawf ar Ymyriadau Strwythuredig newydd gyda'r potensial i'w cyflwyno i'w hachredu.

I sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu hintegreiddio'n effeithiol a bod atebolrwydd cryf o ran cyflawni, byddwn yn creu (yn achos Partneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf) lotiau o gontractau daearyddol a fydd yn rhannu ffiniau â rhanbarthau'r NPS. Byddwn yn llunio'r contractau'n hyblyg fel y gellir canfod yn gyflym y dulliau arloesol sy'n dangos canlyniadau a'u lledaenu ar draws y system ehangach.

“ Bydd HMPPS yn gosod gofynion contract ar Bartneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf o ran sut y byddant yn darparu elfennau penodol o'r ddarpariaeth a bydd yn rhaid iddynt hefyd arddangos y gallu i arloesi a datblygu ymarfer gorau.

Gwaith Di-dâl drwy'r Partner Cyflawni Gwasanaethau Prawf Crynodeb

Asesu:

Bydd Ymarferwyr Prawf yn cwblhau asesiad risg ac anghenion cynhwysfawr ar ddechrau'r ddedfryd. Bydd hyn yn helpu'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf i ddyrannu lleoliadau gwaith i reoli risg yn fwy effeithiol gan greu cyfleoedd i roi sylw i anghenion.

Mae ymchwil yn awgrymu bod y dull hwn yn helpu i roi sylw i anghenion ac mae hefyd yn debygol o optimeiddio cydymffurfiaeth a chyfleoedd ar gyfer adsefydlu yn ystod y ddedfryd.

Amddiffyn:

Mae Gwaith Di-dâl yn gyfle i wneud iawn ac i gosbi, gan alluogi'r cyhoedd i weld buddiannau i'r gymuned yn ogystal â chyfiawnder yn cael ei weinyddu.


Byddwn yn gweinyddu cyfiawnder ac amddiffyn y cyhoedd drwy ei wneud yn ofynnol i unigolion wedi'u dedfrydu i weithio er budd eu cymuned leol mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoli gan staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol.

Mae gwelliannau mewn lleoliadau Gwaith Di-dâl ar gyfer unigolion sy'n risg uchel o niwed a rhai sydd wedi'u heuogfarnu o droseddau rhywiol yn sicrhau rheolaeth risg yn gyffredinol fwy effeithiol yn y gymuned wrth gyflawni dedfrydau.

Newid:

Mae Gwaith Di-dâl yn ategu'r agweddau adsefydlu mewn gorchymyn yn y gymuned drwy ddatblygu sgiliau i fod yn barod am waith, gan gynnwys prydlondeb a chydweithredu ag eraill.

Mae'r model darparu diwygiedig yn cynyddu cyfleoedd ymhellach i ddatblygu sgiliau galwedigaethol. Bydd mwy o gyfle i'r sawl sy'n gymwys i elwa wrth i hyd at 20% o'u Gwaith Di-dâl gael ei wneud mewn gwaith sy'n addysgol neu'n hyfforddiant.



Rhaglenni Achrededig drwy'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf Crynodeb

Asesu:

Byddwn yn asesu cymhwysedd ac addasrwydd pob unigolyn wedi'u heuogfarnu yn y llys, cyn eu dedfrydu neu eu rhyddhau ar drwydded, ar gyfer Rhaglen Achrededig. Ar ôl eu dedfrydu, bydd asesiad arall gan Ymarferwyr Prawf yn sicrhau bod yr unigolyn yn barod ar gyfer y rhaglen cyn atgyfeirio at y Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf i ddarparu'r Rhaglen Achrededig yn y gymuned.

Bydd cynnydd unigolion ar Raglen Achrededig yn cael ei fonitro gan y Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf a'r Ymarferwyr Prawf. Ar ôl cwblhau Rhaglen Achrededig, lle mae llawlyfr y rhaglen yn datgan hynny, bydd adroddiad ar ôl y rhaglen, adolygiad ar ôl y rhaglen a chyfarfod yn crynhoi datblygiad sgiliau'r unigolyn, gan dynnu sylw at feysydd gwaith pellach i Ymarferwyr Prawf ganolbwyntio arnynt am weddill y ddedfryd.

Amddiffyn:

Mae Rhaglenni Achrededig wedi eu llunio i roi sylw i ymddygiad troseddol drwy ddysgu sgiliau newydd a dirnadaeth i'r cyfranogwyr i herio eu ffordd o feddwl a'u hymddygiad sydd wedi'u cysylltu â throseddu.

Drwy wella sgiliau ac adeiladu ar y ddirnadaeth honno, mae unigolion mewn gwell sefyllfa i reoli eu hymddygiadau. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o niwed yn y dyfodol, a thrwy hynny amddiffyn dioddefwyr y dyfodol. Amddiffyn y Cyhoedd yw blaenoriaeth bennaf yr NPS a chanlyniad craidd strategaeth fusnes HMPPS. Mae Rhaglenni Achrededig yn ddulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n cael eu barnu'n annibynnol gan y Panel Cynghori ac Achredu Gwasanaethau Cywiro.

Newid:


Gall Rhaglenni Achrededig helpu unigolion i gydnabod eu risgiau, hunan-reoli a gweddnewid eu bywydau. Mae tystiolaeth gadarn o wledydd eraill a gwerthusiad o ganlyniadau Rhaglenni Achrededig HMPPS yn dangos bod paru'r bobl gywir â'r rhaglen gywir yn hanfodol i gyflawni canlyniadau positif ac annog newid.

Drwy herio agweddau ac ymddygiadau sy'n arwain at droseddu, mae Rhaglenni Achrededig yn mynd i'r afael ag ymddygiad troseddol ac yn rhoi cymorth parhaus i'r unigolyn gan eu Hymarferydd Prawf i adeiladu bywydau mwy diogel a llai niweidiol yn y gymuned.

Bydd Partneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf yn cael eu contractio i ddarparu'r Rhaglen Sgiliau Meddwl a'r Rhaglen Adeiladu Perthnasoedd Gwell ym mhob rhanbarth. Mae nifer o Raglenni Achrededig eraill a fydd yn rhoi sylw i anghenion eraill fel Resolve a Building Skills for Recovery, yn cael eu darparu mewn rhai ardaloedd contract. Lle mae'r rhaglenni hyn yn cael eu darparu ar hyn o bryd, byddwn yn disgwyl y bydd Partneriaid Cyflenwi Gwasanaethau Prawf yn parhau i'w darparu yn y lleoliadau hynny'n unig.

Rydym am sicrhau bod y gyfres gywir o Raglenni Achrededig ar gael yn ddigon aml ac mewn lleoliadau i ateb risgiau ac anghenion y llwyth achosion Prawf.

Yn y dyfodol, gall Rhaglenni Achrededig ychwanegol gael eu comisiynu gan y Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol, ar sail anghenion rhanbarthol a gellir eu datgomisiynu os bydd yr angen/galw yn lleihau. (Bydd Rhaglenni Achrededig ar gyfer rhai sydd wedi'u cael yn euog o droseddau rhywiol a throseddau â chysylltiad ag eithafiaeth yn parhau yng ngofal yr NPS).



Ymyriadau Strwythuredig drwy'r Partner Cyflawni Prawf Crynodeb

Asesu:

Mae asesiadau o safon uchel yn sicrhau bod unigolion yn mynychu'r Ymyriadau Strwythuredig gorau i ddiwallu eu hanghenion.

Bydd asesiad pellach gan yr Ymarferydd Prawf yn sicrhau bod Ymyriadau Strwythuredig yn digwydd yn y drefn gywir i hybu canlyniadau adsefydlu.

Drwy gynnal asesiadau parhaus o'r unigolyn, gall Ymarferwyr Prawf fod yn fwy ymatebol i unrhyw newidiadau mewn risgiau neu anghenion ac yna cyfeirio'r unigolyn at yr Ymyriad Strwythuredig mwyaf addas sydd ar gael, gan dybio bod digon o ddyddiau Gofyniad Gweithgaredd Adsefydlu ar ôl ar y gorchymyn neu ddigon o amser ar ôl ar y drwydded neu oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu.

Amddiffyn:

Drwy herio risgiau a diwallu anghenion, bydd yr Ymyriadau Strwythuredig hyn yn helpu i amddiffyn y cyhoedd a dioddefwyr y dyfodol gan gynnwys unigolion sydd dan oruchwyliaeth y gwasanaethau prawf a'u teuluoedd drwy leihau aildroseddu.

Drwy ddefnyddio Ymyriadau Strwythuredig, gall Ymarferwyr Prawf weithio'n hyblyg ag unigolion i roi sylw i risgiau neu anghenion sy'n dod i'r amlwg yn ystod Gorchymyn, trwydded neu oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu, gan alluogi dull mwy dynamig ac ymatebol i amddiffyn y cyhoedd.

Newid:

Gall Ymarferwyr Prawf annog newid positif mewn unigolyn sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf drwy ddewis yr Ymyriad Strwythuredig mwyaf addas sydd ar gael pan fydd angen hynny yn ystod Gorchymyn, trwydded neu oruchwyliaeth ar ôl dedfrydu.

Drwy newid agweddau a chredoau sy'n gysylltiedig â throddeddu a rhoi sylw i anghenion adsefydlu eraill, gall Ymyriad Strwythuredig helpu unigolion i wyrdroi eu bywydau a byw bywyd heb drosedd.

Bydd atgyfeiriad yn digwydd yn dilyn asesiad llawn a chwblhau cynllun dedfrydu a gall amlygu'r angen i drefnu ystod o weithgareddau drwy gydol y ddedfryd. Bydd yr atgyfeiriad hwn yn cael ei drawsyrro'n electronig i'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf naill ai drwy'r System Awdurdod neu e-bost diogel.

6. Rhyngwynebau rhwng yr NPS a darparwyr

Mae angen inni sicrhau bod gennym y prosesau cywir ar waith i alluogi gweithio effeithiol rhwng yr NPS a'r ymyriadau sy'n cael eu prynu. Bydd angen i hyn helpu taith yr unigolyn o'r llys, yr holl ffordd drwy reoli'r unigolyn yn yr NPS, a darparu ymyriadau naill ai drwy'r Fframwaith Dynamig a/neu'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf, yn ogystal ag Adrannau'r Llywodraeth a'r ddarpariaeth ymyriadau lleol ehangach.

I sicrhau bod gan yr NPS a'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf newydd berthynas waith gref, bydd y dibyniaethau y bydd y ddau yn ddibynnol arnynt wedi'u nodi'n eglur yng nghytundeb y contract. Bydd y cytundebau lefel gwasanaeth, y fersiwn ddiwygiedig o safonau cenedlaethol, y broses hepgor data a darparu proses uwchgyfeirio yn eglur pe bai unrhyw broblemau'n codi er mwyn rhoi hyder i'r ddau barti ac fel modd i i egluro unrhyw feysydd lle mae amwysedd yn y contract.

Rydym yn awr wedi canfod tri maes allweddol i'w hadolygu a'u datblygu mewn cysylltiad â phrosesau, sgiliau a galluoedd a gofynion digidol i hwyluso'r model comisiynu yn y system brawf newydd. Dangosir y rhain yn Ffigur 6, isod, sef:


(i) Deall y galw i ganfod gofynion gwasanaeth

Ym mhob rhanbarth bydd angen inni gael prosesau ar waith i ddeall y galw fel sail i ofynion comisiynu a rheoli gwasanaethau yn y dyfodol.

Bydd data'n ofyniad hanfodol ar gyfer cyflawni'r trefniadau comisiynu newydd yn llwyddiannus yn rhanbarthol. Byddwn yn adolygu gofynion data a llifoedd data ac yn sicrhau bod gennym y data cywir i ategu strategaethau a darpariaeth ranbarthol yn ogystal â'r gallu i ddadansoddi i ddiwallu anghenion lleol.

Bu pwyslais cynyddol ar wella cywirdeb data ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod y lefelau sicrwydd mwyaf effeithiol a symleiddio hyn o fewn y ddarpariaeth fewnol ac a brynir². Rydym eisiau cael y cydbwysedd cywir rhwng cael cysondeb cenedlaethol drwy lywodraethu a strwythur, a chaniatáu digon o hyblygrwydd er mwyn teilwra ar gyfer anghenion a heriau penodol lleol.

²Bydd ein dull sicrwydd yn seiliedig ar y model 'tair llinell amddiffyn' ar gyfer sicrwydd sef dull safonol y diwydiant ar gyfer dylunio trefniadau sicrwydd. Daw'r llinell amddiffyn gyntaf drwy Reoli Contract HMPPS a swyddogaeth rheoli llinell yr NPS sy'n rheoli goruchwyliaeth o ddydd i ddydd dros bob un o adrannau'r NPS, yr ail drwy'r Grŵp Sicrwydd Gweithredol a System, sy'n darparu sicrwydd mewnol HMPPS a daw'r drydedd llinell drwy HMIP a'u harolygiadau annibynnol.



Rydym yn awyddus i sicrhau bod gwybodaeth allweddol yn cael ei rhannu â'r bobl gywir ar yr adeg gywir. Rydym, felly, yn adolygu prosesau rhwng swyddogaethau cenedlaethol a rhanbarthol a fydd yn galluogi'r holl staff perthnasol i wneud y defnydd gorau o'r data a gesglir, ac adeiladu fwyfwy ar yr wybodaeth fel sail i fwriadau comisiynu a gweithgaredd perfformiad.

(ii) Mynediad at wasanaethau

Rydym eisiau i staff prawf wybod pa wasanaethau sydd ar gael yn lleol a chael prosesau cadarn ar waith i'w helpu i gael mynediad atynt. Gan adlewyrchu ymrwymiad strategol asiantaeth gyfan i foderneiddio ein hystadau a'n technoleg, rydym yn bwriadu datblygu catalog o wasanaethau digidol, a fydd yn galluogi Ymarferwyr Prawf (mewn llysoedd ac mewn unedau cyflenwi lleol) i gael gwybodaeth gyfredol am y gwasanaethau sydd ar gael, gan y Fframwaith Dynamig a'r Partner Cyflenwi Gwasanaethau Prawf, a lle mae modd cael gafael ar wasanaethau posibl yn rhwydd yn lleol neu drwy eu cyd-gomisiynu drwy lwybrau eraill.

Byddwn yn adolygu prosesau atgyfeirio a mecanweithiau adborth ar gynnydd ac yn diweddarau'r rhain i sicrhau eu bod yn osgoi dyblygu a'u bod yn hygyrch. Byddant yn galluogi Ymarferwyr Prawf i dreulio mwy o amser â'r unigolyn dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf yn hytrach nag ar brosesau gweinyddol i helpu a monitro'r atgyfeiriad. Byddwn yn asesu pwy sydd yn y sefyllfa orau i reoli a chydlynu atgyfeiriadau ac a oes angen

adnoddau pwrpasol ar eu cyfer. Rydym am wneud y defnydd gorau o systemau digidol i gyfathrebu rhwng Ymarferwyr Prawf a darparwyr allanol i wneud yn siŵr bod yr wybodaeth gywir (angen, risg ac ati) yn cael ei rhannu'n ddiogel ar yr adeg iawn i allu darparu ymyrraeth ystyrlon ac i Reoli Dedfrydau'n effeithiol yn unol â chanlyniad strategol HMPPS, 'Rheoli dedfrydau o ansawdd uchel.'

(iii) Comisiynu a rheoli contract y gwasanaeth

Bydd angen inni sicrhau bod gan ranbarthau'r sgiliau a'r gallu angenrheidiol i ddelio â'r gofynion comisiynu newydd fel rhan o'r Fframwaith Dynamig. Bydd y gallu i reoli contractau hefyd yng ngofal y rhanbarthau a byddant yn rheoli'r contractau ar gyfer y Fframwaith Dynamig a'r Partner Cyflenwi Prawf ar gyfer y rhanbarth. Fel rhan o ddatblygiad y maes gwaith hwn byddwn yn sicrhau bod y staff a phrosesau yn cyflawni gofynion y contract newydd a bod ganddynt y gallu i ddelio â nifer y contractau gyda lefelau amrywiol o ran eu gwerth.


Bydd angen i staff comisiynu a rheoli contractau gydweithio'n glos â'r timau Perfformiad ac Ansawdd rhanbarthol i sicrhau bod y data sydd gennym yn helpu i sicrhau trefniadau gweithio effeithiol â darparwyr allanol.

Pan yn bosibl, ein bwriad yw ceisio ymgorffori prosesau newydd o fewn y strwythurau presennol a, phan fydd angen sgiliau, galluedd a galluogrwydd newydd, byddwn yn ymgorffori hyn o fewn y strwythurau rhanbarthol sy'n cael eu datblygu.


Byddwn hefyd yn adolygu'r rôl sydd gan swyddogaethau cymorth o fewn HMPPS a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a sut y mae'r rhain yn alinio â'r gofynion o fewn y rhanbarthau yn y model newydd i ddeall rolau a chyfrifoldebau, lle mae gweithgaredd yn gweddu orau (yn genedlaethol ynteu'n rhanbarthol) a sicrhau bod gweithgaredd yn cael ei alinio a'i symleiddio ar draws y system.

Rydym wedi ymrwymo i wella profiad y defnyddwyr ar gyfer Partneriaid Cyflawni Gwasanaethau Prawf a darparwyr Fframwaith Dynamig drwy'r gwaith hwn. Rydym yn awyddus i leihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr, hwyluso cydymffurfiaeth â chytundebau contract, a deall pa brosesau, systemau a rhyngwynebau sydd yn y sefyllfa orau i alluogi darparwyr i rannu gwybodaeth berthnasol â'r NPS ar yr adeg iawn.

“ Rydym yn awyddus i leihau'r baich gweinyddol ar ddarparwyr, hwyluso cydymffurfiaeth â chytundebau contract, a deall pa brosesau, systemau a rhyngwynebau sydd yn y sefyllfa orau i alluogi darparwyr i rannu gwybodaeth berthnasol â'r NPS ar yr adeg iawn.



Ffigur 7. Y tri maes allweddol i'w hadolygu a'u datblygu i alluogi'r modelau comisiynu i weithio



7. Galluogi pobl i wneud eu gorau: rheoli'r gweithlu a chydabyddiaeth broffesiynol

7.1. Pobl, trefniadau a rolau allweddol

Yn unol â chanlyniad strategol HMPPS, 'gweithlu amrywiol, medrus sy'n cael ei werthfawrogi', rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl hynny sy'n gweithio yn y gwasanaethau prawf yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y rolau arbenigol a medrus sy'n cael eu cyflawni ganddynt ac i ddarparu'r cymorth cywir i'r gweithlu Prawf i allu datblygu'r arferion gweithio diweddaraf er mwyn cael yr effaith fwyaf ar fywydau unigolion, dioddefwyr a'r cyhoedd.

“ Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y bobl hynny sy'n gweithio yn y gwasanaethau prawf yn cael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi am y rolau arbenigol a medrus sy'n cael eu cyflawni ganddynt.

Byddwn yn datblygu safonau ymarfer a disgwyliadau ar gyfer ein gweithlu, fel y byddant yn ymwybodol o'r disgwyliadau a fydd arnynt, a byddwn yn datblygu cofrestr ar gyfer Ymarferwyr Prawf gan ddefnyddio systemau presennol.

Byddwn yn adolygu'r cyfleoedd dysgu a datblygu presennol ar gyfer staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth prawf i sicrhau bod ein pobl yn manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu proffesiynol seiliedig ar dystiolaeth o safon ryngwladol, eu bod yn cael yr amser a'r cymorth i fanteisio arnynt a'u bod yn cymhwyso eu dysgu i reoli unigolion yn effeithiol yn y gymuned. Bydd

ein cyfleoedd dysgu gwell yn hybu ac yn galluogi diwygiadau ehangach drwy sicrhau bod ein bod yn cael mynediad at gyfleoedd datblygu perthnasol, seiliedig ar dystiolaeth sy'n esblygu'n barhaus, gan eu galluogi i addasu'n gyflym i'r disgwyliadau newydd a ddatblygwyd fel rhan o'r model unedig.


Byddwn yn edrych sut y gallwn wella llwybrau mynediad i'r Gwasanaeth Prawf, a datblygu llwybrau gyrfa eglur a thryloyw, gan sicrhau bod y sawl sy'n gwneud cynnydd yn cael hyfforddiant a chymorth priodol o safon ryngwladol i ddisgleirio wrth iddynt wneud cynnydd.

Byddwn yn cyflwyno strwythurau arweinyddiaeth a galluoedd newydd rhanbarthol i hwyluso pontio esmwyth i staff ac i godi safonau, a byddwn yn parhau i weithio ag Undebau Llafur i gyflwyno trefniadau cyflog newydd i staff.

Nid yn unig y bydd hyn yn rhoi hwb i'n pobl drwy gydnabod eu bod yn cael eu gwerthfawrogi am y gwaith anodd a heriol maent yn ei wneud, ond bydd hefyd yn sicrhau ein bod yn gallu mabwysiadu safonau ymarfer gorau, wedi'u hategu gan gyfleoedd dysgu a datblygu o safon ryngwladol i alluogi ein staff i barhau â'u datblygiad proffesiynol drwy gydol eu gyrfaedd.

8. Cydraddoldeb ac unigolion dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf: carfanau a nodweddion gwarchodedig

Mae naw nodwedd warchodedig sy'n dod o fewn Deddf Cydraddoldeb (2010): rhyw, hil, anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth.



Rydym wedi ymrwymo i weithio â rhanddeiliaid i ystyried effaith system y dyfodol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

“ Rydym wedi ymrwymo i weithio â rhanddeiliaid i ystyried effaith system y dyfodol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.

Fel rhan o'r broses o ddylunio'r gwasanaeth, rydym wedi cynnal ymarferion cwmpasu gyda charfanau penodol, gan gynnwys: unigolion Croenddu ac Asiaidd ac unigolion o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill; menywod; troseddwy'r hyn ac ifanc; Troseddwy'r sy'n Wladolion Tramor; troseddwy'r LGBTQ+ a throseddwy'r ag anabledau. Mae ymarferion cwmpasu wedi cynnwys trafodaethau â rhanddeiliaid mewnol ac allanol fel grwpiau gwirfoddol, cymunedol a mentrau cymdeithasol. Nod y rhain oedd deall anghenion penodol pob carfan ac effaith debygol ein cynlluniau arnynt.

Bwriedir i'n pwyslais ar amrywiaeth y garfan prawf yn nyluniad ein gwasanaeth sicrhau bod trefniadau prawf y dyfodol yn welliant ar y trefniadau presennol. Lle mae'r Llywodraeth eisoes wedi gwneud ymrwymadau i garfanau penodol, er enghraifft, menywod neu bobl groenddu ac Asiaidd a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig, byddwn yn ymdrechu i ymgorffori'r rhain yn nyluniad y trefniadau newydd, boed hynny drwy ddarpariaeth gwasanaeth uniongyrchol neu dan gontract, gan weithio i sicrhau bod ymyriadau sy'n cael eu darparu yn y gymuned yn cael eu teilwra ar gyfer carfan amrywiol o unigolion a'u

profiadau a'u hanghenion i gynyddu eu perthnasedd a'u gwerth.

Yn gydnaws ag ysbryd rhagweithiol Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, rydym wedi canfod nifer o gyfleoedd i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth ac i roi sylw i risgiau effaith anghymesur, ac wedi trafod beth yw rhinweddau bwrw ymlaen â hwy.

Bydd pob Cyfarwyddwr Prawf Rhanbarthol yn gyfrifol am gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac am weithredu ar argymhellion perthnasol Adolygiad Lammy a'r Strategaeth Troseddwy'r Benywaidd. Bydd gan bob rhanbarth eu Rheolwyr Cydraddoldeb pwrpasol eu hunain.

Rydym yn cydnabod bod cyfran uwch o bobl Ddu ac Asiaidd a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill yn cael dedfrydau o garchar, gyda'r grwpiau hyn wedi'u gorgynrychioli ym mhoblogaeth carchardai. Maent hefyd yn cael cyfradd anghymesur o uchel o Waith Di-dâl a chyfradd atgyfeirio anghymesur o isel ar gyfer Rhaglenni Achrededig. Byddwn yn mynd ati i gyflwyno mesurau diogelu i sicrhau nad yw'r cyngor a roddir gennym i ddedfrydwy'r adlewyrchu stereoteipiau rhagfarnllyd neu negyddol sy'n gysylltiedig mewn unrhyw ffordd â chefnidir ethnig unigolion.

Bydd yn rhaid monitro prosesau prawf allweddol, fel cwblhau Gwaith Di-dâl a chwblhau Rhaglenni Achrededig er enghraifft, am wahaniaethu ar sail hil, a rhaid i'r canlyniadau hynny gael eu dadansoddi a'u cyhoeddi pan yn bosibl. Rhaid i ddarparwyr prawf dderbyn yr egwyddor a gyflwynwyd gan Adolygiad Lammy i egluro neu ddiwygio.

Yn yr un modd, rydym wedi ymrwymo i roi sylw i faterion sy'n berthnasol i droseddu gan fenywod. Mae'n hanfodol ein bod

yn gwneud hynny er mwyn amddiffyn y cyhoedd a darparu gwasanaethau adsefydlu mwy effeithiol. Ym Mehefin 2018, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei Strategaeth Troseddwy Benywaidd sy'n disgrifio gweledigaeth a chynllun i wella canlyniadau i fenywod yn y gymuned ac o dan glo. Y weledigaeth yw gweld llai o fenywod yn dod i'r system cyfiawnder troseddol, cyfran uwch yn cael eu rheoli'n llwyddiannus yn y gymuned, ac amodau gwell i'r rhai sydd dan glo.

Fel y cyhoeddwyd yn y Strategaeth Troseddwy Benywaidd, buddsoddwyd £5 miliwn yn y ddarpariaeth i fenywod yn y gymuned sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf a menywod sydd mewn perygl o droseddu. Byddwn yn parhau i ystyried sut y gellir adeiladu ar yr ymarfer da presennol ac ymgorffori'r egwyddorion hyn yn nhrefniadau darpariaeth a chanllawiau'r dyfodol yn ystod y misoedd nesaf.

Ar gyfer model y dyfodol, rydym yn gweithio i sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu i sicrhau y bydd troseddwy benywaidd yn cael adroddiadau cyn-dedfrydu llawnach i wneud yn siŵr eu bod yn mynd i'r afael yn fwy effeithiol ag ystod lawn risgiau ac anghenion y fenyw ac yn cynnig dedfrydau cymunedol credadwy mewn achosion priodol.

Rydym hefyd yn datblygu'r meini prawf dyrannu achosion a fframwaith haenu newydd, a fydd yn adlewyrchu risgiau, anghenion a'r gallu i ymateb i achosion a pharu'r rhain â sgiliau a phrofiad yr Ymarferwyr Prawf. Fel rhan o hyn, rydym hefyd yn ystyried yr opsiynau i droseddwy yn y fframwaith haenu.


Yn achos grwpiau eraill, fel rhai ag anableddau dysgu neu aeddfedrwydd

isel, byddwn yn canfod asesiad o angen mwy cyson drwy offer sgrinio ac asesiadau iechyd. Bydd angen i Swyddogion Cyfrifol gwblhau asesiadau OASys cyn-rhyddhau, sy'n cynnwys Offer Sgrinio Aeddfedrwydd. Dylai canlyniadau'r asesiad hwn helpu i benderfynu ar ba ymyriadau i'w defnyddio gydag unrhyw unigolyn yn y garfan hon, gan gynnwys ymestyn strwythurau cymorth y System Cyfiawnder leuenctid ar gyfer troseddwy dros 18 oed y bernir sydd â lefelau aeddfedrwydd isel.

Yn achos unigolion sydd wedi troseddu droeon, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn ac yn ymgysylltu â chynlluniau Rheoli Troseddwy Integredig. Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau ailsefydlu ar gael i bob gwladolyn tramor sydd wedi cael dedfrydau o gaethiwed yn y DU.

Byddwn yn sicrhau bod dyfodol gwasanaethau yn seiliedig ar yr ymarfer gorau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y grwpiau hyn fel rhan o ddatblygiad diwylliant dysgu agored HMPPS. Mae gwaith yn parhau i ddatblygu dyluniad. Mae ein hymrwymiaadau dylunio'n cynnwys:

- ▲ Trefniadau trylwyr i gasglu, monitro a dadansoddi data i ddeall ac i egluro neu ddiwygio unrhyw anghysondeb mewn canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys adnoddau i gwblhau Offer Monitro Cydraddoldeb Prawf sy'n cael ei ddatblygu gan Dîm Amrywiaeth a Chynhwysiant HMPPS, a fydd yn golygu y bydd modd cymharu canlyniadau o wahanol garfanau nodweddion gwarchodedig o fewn y system prawf, yn ogystal ag offer segmentu a fydd yn ein galluogi i ddeall anghenion a nodweddion adsefydlu gwahanol grwpiau'n well.



- ▲ Datblygu ein cyfleoedd dysgu a datblygu i sicrhau bod staff yn cael y cyfle i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i weithio â charfanau penodol, fel menywod a phobl ifanc.
- ▲ Adnoddau ychwanegol i helpu i baratoi adroddiadau cyn-dedfrydu llawnach ar gyfer menywod a phobl ddu ac Asiaidd a phobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig eraill ac i sicrhau bod y sawl sy'n ysgrifennu'r adroddiadau'n rhoi cyngor eglur a diduedd.
- ▲ Trefniadau caffael sy'n golygu y bydd yn rhaid i ddarparwyr gynnwys ymrwymïadau cydraddoldeb fel rhan o'r broses ymgeisio a, phan yn bosibl, cynnwys yr ymrwymïadau hyn mewn contractau.
- ▲ Fframwaith Dynamig sydd wedi'i lunio i ganiatáu i ymyriadau adsefydlu ac ailsefydlu gael eu comisiynu ar wahân ar gyfer carfanau gwahanol o unigolion, gan gynnwys grwpiau â nodweddion gwarchodedig.
- ▲ Ymarfer a dylunio gwasanaeth cymwys yn ddiwylliannol sy'n gynhwysol ac sy'n ystyried realiti ac effaith gwahaniaethu. Bydd hyn yn ymgorffori'r ymrwymiad o fewn Strategaeth Gydraddoldeb HMPPS y bydd pob gwasanaeth newydd yn cynnwys pwyslais penodol ar gydraddoldeb yn eu dyluniad.
- ▲ Cadwyn gyflenwi sy'n cynnwys y sector gwirfoddol, cymunedol ac arbenigol lle mae ganddynt brofiad neu arbenigedd mewn darparu gwasanaethau i grwpiau lleiafrifol yn y system cyfiawnder, fel canolfannau menywod y trydydd sector, yn enwedig pan fyddant dan oruchwyliaeth yn y gymuned.

- ▲ Trefniadau llywodraethu, arweinyddiaeth a chraffu gwell, gan gynnwys uwch arweinyddion â chyfrifoldeb penodol am weithio i hybu cydraddoldeb.

9. Moderneiddio ein technoleg a'n gwasanaethau digidol

Dylai staff gael eu helpu gan y systemau cywir i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol ac i allu llywio eu hymarfer gyda defnydd o ddata cywir a mynediad at ddysgu parhaus. Mae hyn yn adlewyrchu pwyslais ehangach HMPPS ar foderneiddio ein hystadau a'n technoleg.

Mae angen uwchraddio systemau'r NPS am nad yw'r rhaglenni cyfredol yn diwallu anghenion defnyddwyr ac mae staff rheng flaen yn treulio llawer o'u hamser ar dasgau gweinyddol elfennol, yn hytrach nag ychwanegu gwerth gwirioneddol fel gweithwyr prawf proffesiynol. Hefyd, mae bylchau sylfaenol yn ein data, sy'n arwain at ddiffyg gwybodaeth ar draws y system a sail dystiolaeth gymharol brin a statig (beth sy'n gweithio, ac i bwy?).

Mae prosesau busnes symlach a gwasanaethau digidol cysylltiedig a fydd yn arwain at arbedion yn angenrheidiol. Wrth ddatblygu gwasanaethau digidol newydd, byddwn yn gallu cysylltu data,

“ Wrth ddatblygu gwasanaethau digidol newydd, byddwn yn gallu cysylltu data, a'i ddefnyddio fel sail i benderfyniadau a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i gymdeithas.

a'i ddefnyddio fel sail i benderfyniadau a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell i gymdeithas.

Drwy drawsnewid digidol, byddwn yn dylunio ein gwasanaethau a'n pensaernïaeth ddigidol i gasglu'r set gywir o ddata, ei gwneud yn llai beichus i'w gasglu, atal data gwael rhag cael ei ddefnyddio, a'i gwneud yn haws i gysylltu a dadansoddi. Gallwn wedyn ddefnyddio'r gwyddorau data diweddaraf a thechnegau deallusrwydd artiffisial i gael gwybodaeth (a thystiolaeth) mewn amser real bron, rhannu hyn â defnyddwyr rheng flaen ar adeg y penderfyniad lefel achos, a chymhwyso hyn ar gyfer strategaethau a phenderfyniadau polisi'r dyfodol.


Byddai ymgorffori'r data a'r wybodaeth hon yng ngwaith o ddydd i ddydd Ymarferwyr Prawf a'u rhannu'n briodol â chydweithwyr yn HMPPS (er enghraifft pan fydd unigolion yn cael eu caethiwo) yn gweddnwedd sut yr ydym yn gwneud penderfyniadau yn y Gwasanaethau Prawf, a hefyd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system, a'n gallu i ddefnyddio ein sail dystiolaeth yn ymarferol.

Hefyd, byddwn yn cyflwyno technolegau fel y gellir cyflwyno gwybodaeth newydd i wasanaethau digidol presennol. Pan fydd hyn ar ffurf gwelliannau i brosesau presennol – er enghraifft, algorithmau mwy effeithiol i ganfod troseddwy'r sydd angen cymorth ychwanegol – byddwn yn rheoli'r cylch newid busnes i sicrhau newid cyflym ac esmwyth i'r broses newydd. Dylai gwelliannau graddol fod yn arferol, yn hytrach nag yn ddigwyddiad achlysurol, sy'n amharu ar arferion gweithio.

Bydd golwg di-dor ar yr unigolyn drwy eu dedfryd a'u siwrnai adsefydlu yn elfen ganolog o'r Strategaeth Gwasanaeth Digidol a Data ar gyfer gwasanaethau prawf, gan ddod â data, anghenion a risgiau o gaethiwed ynghyd mewn canlyniadau. Yn ystod y 10 mlynedd nesaf mae angen inni weddnwedd ein darpariaeth, gan reoli'r ddedfryd yn effeithiol yn y llys ac yn y gymuned a chael, ac asesu'n ddiogel, mewn amser real, ystorfa sengl safonedig, gynhwysfawr o ddata strwythuredig ar ymyriadau a gwasanaethau. Wrth reoli'r data ymyriadau drwy gronfa ddata ganolog, gallwn greu sylfaen gyson ar gyfer yr holl systemau a phrosesau cysylltiedig. Gallwn hefyd fanteisio ar yr hyn a ddysgwyd drwy ddata perfformiad a gofnodwyd a manteisio ar hyn i gael mwy o wybodaeth ar gyfer ein dewis o ymyriadau.

Cafodd y Strategaeth Gwasanaeth Digidol a Data ei datblygu i gyflawni'r galluogwyr technoleg ar gyfer y Model Gweithredu Targed a gofynion polisi allweddol yn barod ar gyfer diwrnod cyntaf y model newydd, ond mewn ffordd sy'n diogelu at y dyfodol lle mae pob datblygiad yn rhan o'r darlun llawnach a strategol hwn: dull o ddechrau'r broses hyd ei diwedd sydd hefyd yn ystyried profiad y defnyddiwr ac sy'n cyflawni nodau ein strategaeth data a thystiolaeth.


Mae'r diagram isod yn dangos sut y bydd gwasanaethau data newydd a phlatform dadansoddol y Weinyddiaeth Gyflawnder yn galluogi llifoedd data yn y dyfodol yn y system brawf newydd.



Ffigwr 8. Trosolwg o'r gwasanaethau digidol a lle maent yn cael eu defnyddio o fewn system y gwasanaeth prawf

Golwg ar y gwasanaethau digidol

Llif data yn y dyfodol



10. Moderneiddio ein hystâd


Gan gyfeirio at egwyddor strategol HMPPS, moderneiddio ein hystadau a'n technoleg, mae ein strategaeth ystadau yn ymdrech i greu platfform ystadau tymor hir a chynaliadwy ar gyfer gwasanaethau prawf sy'n cyflawni ein holl ddyletswyddau amddiffyn y cyhoedd ac adsefydlu, ac sy'n rhoi gwerth da am arian. Mae wedi'i llunio'n benodol i:

- ▲ Helpu i gyflawni swyddogaethau craidd Rheoli Dedfrydau, Gwaith Di-dâl, Rhaglenni Achrededig, amddiffyn y cyhoedd a chyflawni gorchmynion y Llys at lefel gwasanaeth dderbyniol drwy wella ansawdd ein heiddo pan fydd eiddo newydd yn cael eu dylunio a phan fydd gwaith ffitio'n cael ei wneud.
- ▲ Cefnogi uchelgais ein gweithlu drwy wella ein gallu i recriwtio a chadw staff drwy gynnig amgylchedd gweithio o safon sy'n arwain at ddiwylliant gweithio mwy deallus.
- ▲ Cyflawni ystâd sy'n cynnig cyfleoedd i wella ansawdd perthnasoedd rhwng unigolion sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf ac Ymarferwyr Prawf.
- ▲ Pan yn bosibl, annog (drwy ddyluniad ein hystâd) cydweithredu ag awdurdodau datganoledig, gan gynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a phartneriaid cyflenwi.

Wrth ddatblygu ein strategaeth ystadau ar gyfer y dyfodol, ein nod yw ystâd sydd:

- ▲ Pan yn bosibl, yn annog integreiddio a phartneriaethau â'r NPS gwell a phartneriaid cyflawnder eraill lleol.
- ▲ Wedi'i lleoli'n ddaearyddol i alluogi amser teithio rhesymol i unigolion i ddefnyddio gwasanaethau ac i annog cydymffurfiaeth. Bydd angen i benderfyniad ar yr amser teithio gael ei wneud yn lleol, yn amodol ar rwydweithiau trafnidiaeth lleol a ffactorau eraill sy'n dylanwadu ar logisteg. Ni ddylid disgwyl i unigolyn deithio mwy na 90 munud (un ffordd).
- ▲ Darparu gofod cyfrinachol priodol i ryngweithio ag unigolion sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf, a gofod grŵp digonol neu ystafelloedd hyfforddi i ddarparu ymyriadau.
- ▲ Diogel a hygyrch i bob aelod o staff ac unigolion, sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf ond sy'n briodol i'r risg.
- ▲ Rhoi gwerth am arian ac effeithlonrwydd.
- ▲ Gyda threfniadau teg, cyson ac effeithiol ar waith ar gyfer codi taliadau pan fydd gofod yn cael ei rannu yn yr ystâd.
- ▲ Yn gynaliadwy'n amgylcheddol fel a bennir o dan Bolisi Ymrwymadau Greening Government.
- ▲ Gofalu bod mynediad ar gyfer anghenion amrywiol unigolion sydd dan oruchwyliaeth gwasanaethau prawf a staff yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r naw nodwedd warchodedig.

“ Rydym wedi ymrwymo i weithio â rhanddeiliaid i ystyried effaith system y dyfodol ar unigolion â nodweddion gwarchodedig.



11. Fframwaith perfformiad

I sicrhau gwasanaethau prawf effeithiol, bydd fframwaith perfformiad newydd yn hybu tri maes allweddol:

- ▲ Newid y pwyslais o brosesau i ddarpariaeth o safon drwy gyflwyno mesurau ansawdd newydd a chryfhau sicrhau ansawdd darparwyr.
- ▲ Deall canlyniadau drwy gofnodi allbynnau a chanlyniadau y mae gan ddarparwyr elfen o reolaeth drostynt a lle mae tystiolaeth o gysylltiad â lleihau aildroseddu.
- ▲ Ennyn hyder yn y ddarpariaeth brawf drwy ddwyn yr NPS a darparwyr dan gontract i gyfrif am gyflawni dedfrydau, gorfodaeth ac amddiffyn y cyhoedd.

“ Mae'r fframwaith perfformiad ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cymhellion i wella perfformiad ar draws yr NPS a darparwr dan gontract.

Mae'r fframwaith perfformiad ar gyfer y dyfodol yn cynnwys cymhellion i wella perfformiad ar draws yr NPS a darparwr dan gontract. Bydd targedau allweddol ar gyfer HMPPS yn dangos a yw'n cyflawni ei nodau cyffredinol.

Rhaglen Diwygio'r Gwasanaethau Prawf

Mawrth 2020



HM Prison &
Probation Service